

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 482 • Tachwedd 2017 • 50c

CAIS LLWYDDIANNUS GAN Y CLWB RYGBI



Cafwyd tystiolaeth bellach o'r bwrllwm cymunedol sydd wedi ei weld a'i brofi yn yr ardal dros y flwyddyn ddiwethaf, wrth i Glwb Rygbi Bethesda gyhoeddi'n ddiweddar eu bod wedi derbyn nawdd gwerth £250,000 gan y Loteri Genedlaethol er mwyn dylunio a chodi adeiladau newydd – adeiladau a fydd hefyd at ddefnydd y gymuned yn ehangach.

Dyfarnwyd y nawdd i'r Clwb gan raglen 'Cymunedau a Lleoedd' y Gronfa Loteri Fawr, sy'n rhannu miliynau o bunnoedd bob blwyddyn gydag elusennau, grwpiau cymunedol ac achosion da eraill er mwyn cefnogi ymdrechion i wella meysydd iechyd, addysg ac amgylchedd ardaloedd. Mae sicrhau nawdd o'r Gronfa yn broses gystadleuol dros ben, gyda dim ond saith o geisiadau yn cyrraedd y brig yng Nghymru

eleni. Mae'r ffaith fod Clwb Rygbi Bethesda ymhlith y detholion hynny yn tystio i gryfder a theilyngdod y cais a baratowyd gan swyddogion y Clwb yn gynharach eleni.

Bydd y cyllid hwn yn caniatáu i'r Clwb Rygbi godi adeilad clwb ac ystafelloedd newid newydd sbon ar gaeau Dôl Ddafydd. Drwy gynyddu maint yr adeiladau hynny â'u llenwi â chyfarpar newydd, byddant nid yn unig yn gaffaeliad mawr i aelodau a chwaraewyr y Clwb ond hefyd felly i'r 20 a mwy o grwpiau amrywiol sydd eisoes yn defnyddio'r lle ar gyfer pob math o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn.

Disgwylir i'r gwaith go iawn ddechrau yn y flwyddyn newydd, ar ôl i swyddogion y Clwb ymgynghori â'r penseiri a fydd yn gyfrifol am ddylunio'r adeiladau newydd.

Mae dyluniad drafft eisoes wedi ei ryddhau, gan roi cip i ni ar adeiladau modern, hygyrch ac aml-bwrpas.

Gyda mentrau megis Partneriaeth Ogwen, Ynni Ogwen a Cwrw Ogwen wedi derbyn sylw cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac wedi cyfrannu'n sylweddol at ddyrchafu delwedd gyhoeddus yr ardal, da o beth yw clywed am fuddsoddiad pellach yn y cyfleusterau hamdden a chymunedol sydd yma ar ein cyfer yn Nyffryn Ogwen.

GWASANAETH NADOLIG CYMUNEDOL

yng Nghapel Jerusalem

Nos Sul, Rhagfyr 17


am 7.00. p.m.

Dewch i ddathlu'r Wyl yng nghwmni

**Côr Meibion y Penrhyn,
Côr y Dyffryn,
Côr Ysgol Dyffryn Ogwen
ynghyd ag unigolion.**

Mynediad am ddim

Gwneir casgliad tuag at achos da
Croeso cynnes i bawb



Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com
- Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com
- Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com
- Dewi Llewelyn Siôn**
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk
- Fiona Cadwaladr Owen**
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com
- Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com
- Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk
- Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com
- Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

- Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trefnydd hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com
- Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk
- Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

- Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Rhodri Evans.
- Golygydd rhifyn mis Rhagfyr fydd
Orina Pritchard,
7 Rhos y Nant,
Bethesda,
LL57 3PP.
01248 602119
E-bost: orinapritchard@gmail.com
- Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 29 Tachwedd
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 14 Rhagfyr**,
yng Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.
- Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Palas Print

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore **dydd Iau** rhwng 10.00 o'r
gloch a hanner dydd

Dyddiadur y Dyffryn

- Tachwedd**
- 17 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
Neuadd Ogwen am 6.00.
- 18 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen am
10.00.
- 20 Te bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00.
- 22 Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd
Ogwen. 5.00 – 8.00.
- 23 Clwb Camera Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes. 7.15 – 9.30.
- 24 Atgofion ar Gân. Neuadd Ogwen.
10.30 – 11.30.
- 25/26 Ffair Grefftau. Caban Brynrefail.
10.00 – 4.00.
- 25 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y
Brenin. 10.00 – 12.00.
- 25 Ffair Nadolig y Blaid Lafur. Neuadd
Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 28 Plaid Cymru, Cangen Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.00.

Rhagfyr

- 01 Gwasanaeth Carolau Sefydliad y
Merched. Festri Jerusalem am 7.00.
- 02 Côr y Penrhyn, Gwawr Edwards,
Gwyn Owen. Theatr Bryn Terfel,
Pontio am 7.30.
- 04 Merched y Wawr Tregarth. Cinio
Nadolig.
- 05 Ffair Nadolig Festri Bethlehem
Talybont am 6.30.
- 05 Bore Coffi Nadolig Ysgoldy
Maesygroes. 10.30 – 12.00.
- 06 Clwb Llanllechid. Cinio Nadolig.
- 07 Sefydliad y Merched Carneddi.
Dathlu'r Nadolig.
- 08 Atgofion ar Gân. Neuadd Ogwen.
10.30 – 11.30.
- 09 Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd
Ogwen. 9.30 – 1.00.
- 11 Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen. Festri
Jerusalem am 7.00.
- 13 Clwb Camera Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes. 7.15 – 9.30.
- 14 Cymdeithas Jerusalem. Annette a
Gwyn Parry. Festri Jerusalem am 7.00.
- 14 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
- 17 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol.
Capel Jerusalem am 7.00

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Rhoddion i’r Llais

- £20.00 Don Hughes, Halifax
- £10.00 Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd, Bethesda
- £10.00 Llewela O’Brien er cof am ei thad, Richard Cyril Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, a fu farw ar Rhagfyr 13 1988
- £4.50 Ian Russell, Pentre Llandygai
- £10.00 Er cof annwyl am Mr. Gwilym Llewelyn Williams oddi wrth y teulu, Maes Caradog.

Diolch yn fawr.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Tachwedd

- £30.00 (54) Iris Harper, Y Deri, Tŷ Newydd, Llandygai
- £20.00 (184) Enid Roberts, Cae’r Wern, Tregarth
- £10.00 (5) Megan Wyn Phillips, 9 Rhes Gordon, Bethesda
- £5.00 (46) Rhiannon Efans, Ffordd Pant, Bethesda

Gwobrau Blynnyddol

- £100.00 (97) Walter Williams, 14 Erw Las, Bethesda
- £50.00 (168) Mair Williams, 25 Arafon, Mynydd Llandygai
- £25.00 (78) Dafydd Roberts, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas
- £10.00 (141) Iona Wyn Jones, 16 Pentre Llandygai

(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa’r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy’n cael trafferth â’i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o’r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o’r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, Arwel, 169 Ffordd Penrhos, Bangor LL57 2BX
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

Apêl arall am wirfoddolwr!

Fel y gwelwch, er fy mod wedi symud o’r ardal, dwi dal yn ohebydd Glasinfryn, Caerhun a Waen Wen ar gyfer y Llais! Does neb wedi cynnig ymgymryd â’r gwaith ac felly dwi wedi penderfynu dal ati ar gyfer y rhifyn yma o’r Llais a rhifyn Rhagfyr. Os na fydd neb wedi gwirfoddoli erbyn diwedd y flwyddyn, mi wnâi ofyn yn garedig i chi anfon eich newyddion wedi hynny at Olygydd y Mis. Dwi’n mawr obeithio y bydd rhywun yn cynnig eu henw cyn diwedd y flwyddyn. Mi fasa’n dda parhau â’r traddodiad o gael gohebydd ar gyfer Glasinfryn, Caerhun a Waen Wen.

Cylch Glasinfryn

Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Dr Carrie Rimes yng nghyfarfod Hydref o’r Cylch. Mae Carrie yn cynhyrchu caws o lefrith dafad dan yr enw Cosyn Cymru sydd yn cael ei wneud a’i farchnata’n lleol. Dywedodd sut y dechreuodd ei diddordeb mewn gwneud caws ar fferm ei rhieni yn Nyfnaint. Er mai gyrfa a chefnidir mewn gwyddoniaeth sydd gan Carrie, penderfynodd ychydig flynyddoedd yn ôl newid trywydd a rhoi gorau i’w gwaith. Dilynodd sawl cwrs gwneud caws a threuliodd amser yn Ffrainc i gael profiad yn y llaethdai caws a ffermydd godro defaid yno. Bu hwn yn brofiad gwerthfawr iawn iddi a dechreuodd arbrofi a gwneud caws yma yng Nghymru. Bellach mae’n cynhyrchu sawl math o gaws safonol ac yn ei werthu yn Fferm Moelyci a marchnadoedd fel Marchnad Ogwen. Mae’r cawsiau wedi cael eu henwi gyda chysylltiadau lleol fel Caws Chwaral, Olwyn Fawr a Brefu Bach, sy’n gaws meddal. Mae hi hefyd yn cynhyrchu iogwrt a hufen iâ. Yn ystod ei sgwrs cawsom brofi’r gwahanol gawsiau blasus iawn yn ogystal â’r iogwrt bendigedig!

Diolchwyd i Carrie gan Jocelyn am sgwrs a chyflwyniad arbennig, a llawer ohono yn y Gymraeg, gan iddi ddysgu’r iaith yn drwyadl iawn. Da yw gweld rhywun â brwdfrydedd yn dilyn ei breuddwyd ac yn llwyddo.

Cydymdeimlwyd ac Elizabeth ar golli ei brawd yn ddiweddar. Dosbarthwyd pamffledi ar gyfer Bocsys Nadolig a chawsom olwg ar fwydlen y parti Nadolig sydd i’w gynnal yn Y Garddfon, yn y Felinheli ar Rhagfyr 12.

Braf iawn fyddai croesawu mwy atom i

fwynhau nosweithiau’r Cylch. Rydym yn griw hwyliog, yn mwynhau cyfarfod am sgysiau difyr a chymdeithasu. Yn ein cyfarfod ym mis Ionawr, mi fyddwn ni’n dod at ein gilydd yn Storiell, Bangor a hynny ar brynhawn Mawrth, Ionawr 9 am 2.00yp. Mi gawn ni sgwrs ddifyr am hanes bro a chyfle i fwynhau panad a theisen.

Calendrau’r Llais

Os oes rhywun am brynu Calendr Llais Ogwan ar gyfer 2018, mae cyflenwad ar gael gan Mair Griffiths, Pen y Bryn, Waen Wen. Ffoniwch 01248 352966 er mwyn sicrhau eich copi.

Pwyllgor y Ganolfan

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Glasinfryn nos Lun, Hydref 30. Yn ei adroddiad i’r Pwyllgor, nododd y Cadeirydd, Elfed Roberts, mai adnodd i’r gymuned oedd y Ganolfan ac roedd y Pwyllgor bob amser yn awyddus i annog trigolion lleol i ddefnyddio’r adeilad. Roedd ffioedd llogi’r Ganolfan yn rhesymol, meddai. Petai unrhyw achlysur yn codi a fyddai’n golygu bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfod cymunedol - cyfarfod i drefnu gweithgaredd cymunedol, er enghraifft, yna ni fyddai’n rhaid talu ffi. Nododd hefyd gefnogaeth Cyngor Cymuned Pentir, oedd yn cael ei werthfawrogi’n fawr gan y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod nesaf ganol Chwefror.

Bingo

Cynhaliwyd Noson Bingo hynod o lwyddiannus yn y Ganolfan yng Nglasinfryn ar Nos Wener, Hydref 20. Casglwyd cyfanswm o £225 ar gyfer Ward Oswald, Ysbyty Gobowen. Diolch o galon i bawb am eu haelioni ac am gyfrannu at achos teilwng. Bydd y sesiwn Bingo nesaf yn cael ei gynnal yn y Ganolfan ar Nos Wener, Rhagfyr 15, gyda’r elw yn mynd at y Gronfa Dementia er mwyn sefydlu Gardd Synhwyrus yn Ysbyty Gwynedd. Mi fydd hon yn noson arbennig gan mai hwn fydd y Bingo Nadolig a bydd lluniaeth ar gael. Bydd y noson yn dechrau am 7.00 o’r gloch. Dewch yn llu i fwynhau noson hwyliog.

Taflen ddiddorol

Mae taflen hynod o ddiddorol wedi cael ei chyhoeddi gan Gyngor Pentir a Menter Fachwen fel rhan o’r cynllun Cerdded a Darganfod. Mae’n cynnwys map, a gwybodaeth a straeon am ardal Pentir. Os nad ydych wedi gweld y daflen, mae copïau ar gael yn y Ganolfan.



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Profedigaeth

Cydymdeimlwn gyda Gomer ac Ann Davies, Penrallt, Tal y Cae yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw chwaer Gomer, sef Erinwen Davies, ar Hydref 7 yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofion atoch a’r holl deulu.

Daeth profedigaeth i ran Iolo a Nesta Williams, gynt o Tal y Cae, ond bellach yn byw yn Cae Garnedd, Penrhosgarnedd. Bu farw brawd Iolo, sef y Dr Iwan Bryn Williams, Y Bala. Bu farw mewn Cartref Gofal ger Porthmadog. Ein cydymdeimlad dwysaf gyda chithau fel teulu.

Bu farw un o drigolion Bro Syr Ifor, sef Eddie Feaver. Cydymdeimlwn gyda Eleri a’r holl deulu.

Rhaglen Radio

Ar raglen ‘Stiwdio’ Radio Cymru, cafwyd clyfle i glywed llais un o fechgyn y pentref, sef y ffotograffydd Rhodri Ellis Jones, mab John a’r diweddar Renne Ellis Jones, Fron Heulog, Sling. Roedd yn sgwrsio gyda Nia Roberts am y ffotograffydd enwog o Gymro, Philip Jones Griffiths. Mae Rhodri yn gweithio yn yr Eidal ym myd ffotograffiaeth ers blynnyddoedd ac roedd yn adnabod Philip Jones Griffiths ac yn edmygwyr mawr o’i waith.

Cyfarchion

Ni fydd Gwen a John, Tanysgrafell Isaf, yn anfon cardiau Nadolig eleni. Hoffai’r ddau ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Newyddion Capel Shiloh
Gwellhad buan

Pob dymuniad da i David Ellis Jones, Glan Gors, sydd newydd gyrraedd adre wedi cyfnod arall yn Ysbyty Gwynedd. Pawb yn dymuno gwellhad llwyr a buan i David.

Gwasanaeth y Diolchgarwch
Cafwyd cyfle eto eleni i ddathlu cyfnod y Diolchgarwch yn Shiloh drwy gyfrwng gwasanaeth, sef Oedfa Deulu, Nos Sul, Hydref 15. Roedd y gwasanaeth yng ngofal rhai o ieuntyd y capel gyda rhai o’u rhieni yn rhoi cymorth. Y gair DIOLCH oedd y thema ac roedd pawb ar eu gorau, fel arfer. Roedd yn hyfryd clywed Gwenno yn rhoi datganiad arbennig iawn ar y delyn. Rhai eraill a gymerodd ran oedd Nel Mai, Myfi Celyn, Ifan Rhys, Gwenlli ac Aziliz. Daeth pawb â chyfraniad tuag at flwch y Banc Bwyd. Hyfryd iawn oedd cyfraniad Wyn Williams, a roddodd anerchiad gwbwl berthnasol i’r ieuntyd ac eraill oedd yn bresennol. Diolch iddo am fod mor barod ei wasanaeth. Diolch i Christine Morris Jones am drefnu’r oedfa ac am gyfeilio.

Roedd Gwasanaeth Diolchgarwch wedi’i drefnu ar gyfer Nos Lun, Hydref 16, ond oherwydd y tywydd mawr, penderfynwyd gohirio’r gwasanaeth eleni.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu’n hael yn ystod y flwyddyn i’r Banc Bwyd. Mae tua chwech llond bocs wedi eu cludo i Fangor yn ystod y misoedd diwethaf.

Llongyfarch Susan
Llongyfarchiadau i Susan Jeffries, merch y diweddar Raymond a Kattie Jeffries am ennill gwobr arbennig iawn, sef Asesydd y Flwyddyn, Dysgu yn Seiliedig ar Waith. Magwyd Susan yn Tan y

Bryn a bu’n aelod yn Shiloh ac mae’n parhau i fod gyda chysylltiad agos iawn â’r capel. Mae ei chartref yn awr yng Nghaerdydd ac, ar ôl dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad ym maes cynhyrchu rhaglenni teledu, cychwynnodd Susan ei chwmni hyfforddi ei hun, yn arbennigo mewn prentisiaethau ar gyfer swyddi sy’n amrywio o ddylunio gwisgoedd i effeithiau arbennig. Mae’n rheolwr gyfarwyddwr Sgil Cymru, sy’n rhan o’r diwydiant yn Stiwdios Pinewood yn Rhymni, mae’n brif Asesydd ar gyfer tair prentisiaeth yn y cyfryngau ar Lefelau 3 a 4. Llongyfarchiadau, Susan.

<i>Oedfaon yn Shiloh</i> (dechrau am 5 o’r gloch, oni nodir yn wahanol)	
Tachwedd 26	Eric Jones, Bangor
Rhagfyr 3	R.Ifor Jones, Bae Colwyn
Rhagfyr 10	Gwynfor Williams, Caernarfon
Rhagfyr 17	Oedfa Nadolig y Teulu am 4 o’r gloch
Rhagfyr 24	Noson Garolau yng nghwmni y Parchedig Richard Gillion

Drws Agored
Bydd Drws Agored yn Shiloh bob bore Gwener o 10-12 ar gyfer unrhyw un sydd angen cwmni, sgwrs a phaned.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Angela a Meirion Griffiths, Hen Orsaf Heddlu, Tregarth, ar ddod yn Nain a Taid am y tro cyntaf yn ystod mis Hydref. Ganed mab bach i’w merch Catrin a’i phartner Mike, ac enw yr un bach ydi Cedri William. Mae Cedri hefyd yn nai bach newydd sbon i Morgan. Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu.

Gwobr i Catherine

Llongyfarchiadau mawr i Catherine Grace Cox ar ennill gwobr bwysig yn seremoni Gwobrau Prentisiaethau Cymru. Mae Catherine yn byw yn Bro Syr Ifor, Tregarth, ac yn gweithio yn salon trin gwallt Serena, Allt Pen y Bryn, Bethesda. Bu’n freuddwyd ganddi i gael gyrfa’n trin gwallt er pan oedd yn ifanc iawn a byddai’n helpu yn salon ei modryb yn aml iawn. Cymhwysodd gyda NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt gyda Grŵp Llandrillo Menai. Pob dymuniad da i ti i’r dyfodol, Catherine!



Merched y Wawr

Bydd Cangen Tregarth o Ferched y Wawr yn cynnal eu cinio Nadolig eleni, Nos Lun, Rhagfyr 4, yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda. Am fwy o fanylion cysyllter gyda Val Ellis Jones (600233) neu Anwen Griffiths (601262). Ni fydd cyfarfod ym mis Ionawr ond cynhelir yr un nesaf ar Chwefror 5, sef Noson o Waith Celf gogyfer â'r Pasg, yng nghwmni Margaret a Jên. Croeso cynnes i bawb i Festri Capel Shiloh am 7.30.

Canolfan Tregarth

Clwb 100 Canolfan Tregarth Mis Hydref
37 Angharad Williams £15
7 David Hadfield £10
56 Peter Roberts £5

Piano

Mae hen biano yng Nghanolfan Tregarth a neb yn ei ddefnyddio. Os oes rhywun eisiau'r piano, mae croeso i chi ei chael, dim ond i chi ddod i'w nôl.
Cysylltwch ag Angharad Willams ar 601544

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau
Tachwedd 19, 9:30yb – Boreol Weddi
Tachwedd 26, 9:30yb – Cymun Bendigaidd
Rhagfyr 3, 4:00yp – Carolau Adfent
Ni fydd gwasanaeth yn y bore
Rhagfyr 10, 9:30 – Cymun Bendigaidd

Cydymdeimlo

Cymdeimlwn ag Eleri Feaver a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Eddie Feaver.

Ffair Hydref

Cawson Ffair Hydref lwyddiannus iawn ddydd Sadwrn, Hydref 29 – diolch yn fawr i bawb ddaru gyfrannu a chefnogi'r Ffair.

Diolch

Dymuna Ann a Gomer Davies, 32 Tal y Cae, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt pan fu farw Erinwen Davies, Bae Colwyn, sef chwaer Gomer. Bu'r cynhebrwng yn Nant Peris dan arweiniad y Parch Euros Jones.

Llais Ogwan

Dilynwch ni ar trydar

@Llais_Ogwan

CHWILAIR

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	V	A	L	A	W	L	L	E	C	H	I	D	S	H	E	I	M	G	V
H	M	D	W	T	E	N	O	R	Y	D	D	I	N	F	R	Y	N	H	U
Z	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y
E	H	E	D	Y	D	D	O	G	W	E	N	C	Q	Z	G	R	H	C	U
M	W	N	O	Y	R	I	A	S	O	Z	O	U	T	F	D	X	U	P	W
E	R	H	C	Q	H	W	E	S	H	E	O	Y	E	E	G	E	O	M	H
O	E	P	T	T	C	B	C	B	T	C	U	U	J	P	L	T	M	I	V
S	V	D	C	B	B	E	F	M	R	F	O	W	N	G	J	V	I	I	R
Y	R	X	I	M	R	H	O	L	T	T	I	E	O	S	K	O	P	W	R
B	C	M	K	A	C	R	A	B	O	H	W	R	C	X	V	R	Y	H	S
E	T	M	I	R	E	W	F	Y	R	G	J	I	D	U	Z	H	B	C	W
R	O	N	S	C	D	R	A	Y	O	I	A	X	R	N	I	L	X	J	J
T	T	M	B	I	W	T	H	L	E	M	X	M	M	D	X	K	F	U	P
H	C	Q	S	Y	O	P	O	I	S	L	Y	F	E	R	Z	Q	R	O	C
T	D	O	G	W	A	I	S	O	L	C	Z	E	B	E	A	J	K	J	C
L	E	N	L	S	N	R	E	V	W	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W
J	J	Q	A	I	U	L	F	A	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z
E	A	M	E	G	A	N	L	L	E	C	H	I	D	F	X	I	W	T	Z
H	K	D	V	A	G	A	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B

CERDDORION A CHANTORION

Yn y chwilair mis yma mae ENW DEUDEG O GERDDORION A CHANTORION Llanllechid a Llandygái. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chiw ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ayyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).
Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn TACHWEDD 29. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.
Nid wyf yn gwybod beth ddigwyddodd gyda'r chwilair y mis diwethaf; roeddwn wedi cynnwys yr atebion ac enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir, ac enw'r sawl a enilliod y wobwr ond ni ymddangosodd gyda'r chwilair. Enillydd Medi oedd: Myfanwy Jones, Tan Rhiw, Stryd Hirael, Gaerwen, Ynys Môn, LL60 6BL.
Dim ond deg ohonoch gafodd yr atebion cywir i chwilair Hydref. Llawer mwy ohonoch wedi cael hyd i PANT, SARN, a

RHOS. Ac roedd un wedi anfon yr atebion ddwywaith, ond yn anffodus nid yw hyn yn golygu eich bod â gwell siawns o ennill y wobwr! Braf oedd derbyn gair gan un a oedd yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn y chwedegau. Mae'r Llais yn dod â llawer at ei gilydd i rannu atgofion. Rwyf yn gobeithio y cewch gwell hwyl gyda'r chwilair yma. Cerddorion a Chantorion.
Dyma atebion Hydref: Aber, Afon Dysynni, Afon Eden, Afon Rhyddallt, Carrog, Dyfi, Glaslyn, Llafar, Mawddach, Ogwen, Prysor, Tryweryn. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir: Elizabeth Buckley, Tregarth; Dilys W. Griffith, Abergele; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Mrs M. A. Jones, Llanllechid; Doris Shaw, Bangor; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rosemary Williams, Tregarth; Alwyn Rowlands, Tregarth.
Enillydd Hydref oedd: Colin Davies, 5 Sgwar y Parc, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3AD.

Pentir

Deffibriliwr Sgwâr Pentir

Mae British Telecom (BT) wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r blwch ffôn yn sgwâr Pentir ac mae'r grŵp cymuned leol, 'Parchu Pentir', wedi ymchwilio i mewn i ffyrdd gwahanol o ddefnyddio'r blwch. Ar ôl tipyn o drafod, penderfynwyd y dylid sefydlu gorsaf deffibriliwr yn y blwch.

Gall y ddarpariaeth yma achub bywydau drwy ymateb yn gyflym i argyfwng. Pan fydd trawiad ar y galon yn digwydd, mae pob munud yn bwysig. Os ydych fwy na phum munud i ffwrdd o gymorth meddygol, mae cyfarpar lleol fel hyn yn hollbwysig.

Mi wnaethon ni gysylltu â 'Community Heartbeat Trust' (CHT) a chawsom lawer o gymorth a chynghor ganddynt. Buom yn llwyddiannus i dderbyn grant o £2,226 gan y Loteri a'u rhaglen 'Awards for All' er mwyn prynu a sefydlu'r offer. Hefyd, casglwyd arian (tua £1,000) tuag at gynnal yr offer trwy drefnu digwyddiadau lleol fel y

'Ras Hwyl' a chyngerdd. Bydd CHT yn sefydlu'r offer ar Tachwedd 8 a byddwn yn derbyn hyfforddiant ar Rhagfyr 7. Os oes unrhyw berson â diddordeb mewn derbyn hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r teclun pwysig hwn, cysylltwch â Kate Potter (Kshp49@gmail.com).

Yn y cyfamser, byddwn yn glanhau ac addurno'r blwch cyn sefydlu'r deffibriliwr. Mae'r prosiect yma yn perthyn i rwydwaith genedlaethol o ddeffibrilwyr ac mae hefyd wedi dod â'r gymuned yn nes at ei gilydd wrth godi arian, cymryd rhan a dysgu am y fenter bwysig hon.

Eglwys St. Cedol, Pentir

Bore Coffi
Fore Sadwrn, Hydref 28, cynhaliwyd Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes. Roedd yn fore llwyddiannus a braf oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd. Diolch i drigolion y Fro am eu cefnogaeth.

Ffair Nadolig

Bydd ein Ffair Nadolig eleni ar brynhawn

Sadwrn, Tachwedd 25 am 1.30yp yn Y Ganolfan, Glasinfryn. Bydd y stondinau yn cynnwys rhai cynrych cartref, anrhegion, crefftau, tombola a stondin boteli ynghyd â raffl, gyda gêm Bingo Nadoligaidd i derfynu'r prynhawn. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael a chroeso cynnes i bawb.

Dathliad o'r Nadolig

Nos Sul, Rhagfyr 17, am 6yh bydd noson i ddathlu Gŵyl y Nadolig. Ceir datganiadau cerddorol ar yr organ a'r clarinét, datganiadau llafar a charolau cynulleidfaol. Croeso cynnes i bawb.

Gwasanaethau'r Sul

Mae'r gwasanaethau bob bore Sul am 9.45yb, ac mae croeso cynnes i chi ymuno â ni. Ar gyfer Tachwedd a Rhagfyr:

19.11.17	Cymun Bendigaidd
26.11.17	Boreol Weddi
3.12.17	Cymun Bendigaidd
10.12.17	Boreol Weddi
17.12.17	Cymun Bendigaidd

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Cofion

Rydym yn gyrru ein cofion at Alun Davies, Ffordd Abercaseg, ar ôl iddo dderbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Rydym yn gobeithio dy fod yn gwella'n dda erbyn hyn, Alun.

Penblwydd yn 60 oed

Dathlodd Debbie Garlick, Stryd y Ffynnon, ei phenblwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Rydym yn dymuno penblwydd hapus iawn iddi, ac yn gyrru ein cofion ati, gan nad yw Debbie wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Anita Freeman, Ciltrefnus, a'i theulu, yn eu profedigaeth o golli chwaer Anita, sef y diweddar Elaine Davies, oedd yn trigo ym Mangor.

Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Jane Jones, Gwernydd, ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ddiwedd Hydref. Dathlodd Jane ei phenblwydd arbennig gyda'r teulu a ffrindiau yng



Nghaffi Coed y Brenin ym Methesda, ble cafwyd pryd o fwyd bendigedig wedi ei baratoi gan Karen a'r staff. Cafodd pawb amser ardderchog yn dathlu gyda Jane.

Cydymdeimlad

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i Allison Parry, Ciltrefnus, a'r teulu, yn eu profedigaeth fawr o golli tad Allison, y diweddar Ron Parry, oedd yn trigo yn Rachub. Roedd y brofedigaeth hon yr ail mewn llai na blwyddyn i Allison a'r

teulu, gan nad oes ond rhai misoedd ers i Allison golli ei mam, y diweddar Marilyn Parry. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch fel teulu ar yr adeg trist hwn.

Cartref newydd

Croeso i Sioned Jones a'r teulu i'w cartref newydd yn Stryd Morgan. Rydym yn gobeithio'n fawr y byddwch yn hapus yn ein plith.

Brysiwch wella

Rydym yn gyrru ein cofion at

Valerie Hanks, Tan Treflys, sydd bellach adref ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri. Cymrwch ofal rŵan, Val; rydym yn edrych ymlaen at eich gweld o gwmpas yr ardal unwaith eto.

Dathlu'r deunaw

Llongyfarchiadau mawr i Mabli Non, Rallt Isaf, ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed. Gobeithiwn yn fawr iti gael diwrnod gwych yn dathlu, Mabli.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Ar nos Iau, Hydref 12, yn Ysbyty Gwynedd, cafwyd arddangosfa flodau gan Denise Weaver o Gaer. Cafwyd gair o groeso gan yr is-gadeirydd, Iona Jones, a gair o ddiolch ar y diwedd gan Norman Evans. Roedd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor. Diolch i bawb am y trefniadau.

Rydym fel pwyllgor yn anfon ein cofion at Margaret a Glenys.

Ar nos Wener, Hydref 20, aeth y cadeirydd a'r is-gadeirydd, sef Joe Hughes ac Iona Jones, a hefyd Norman, Nia ac Eirlys draw i westy 'The Ring' Rhosgoch i dderbyn siec swmpus o £10,900.00 at waith y Cyfeillion gan gadeirydd ac aelodau o bwyllgor 'Charity Shearing', Rhosgoch. Dymuna'r Cyfeillion ddiolch yn fawr iawn iddynt am y rhodd ardderchog yma.

Ar nos Sul, Rhagfyr 3, am 7 o'r gloch yng Nghapel Cysegr, Bethel, byddwn yn cynnal ein Gwasanaeth Nadolig, gyda phlant Ysgol Sul Cysegr a disgyblion Ysgol Uwchradd Brynrefail yn cymryd rhan. Gwneir casgliad yn ystod yr oedfa a bydd paned i bawb ar y diwedd. Croeso cynnes iawn i bawb ymuno â ni.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Tachwedd 19: Dan ofal Teulu Royal
Tachwedd 26: Parchg. Carys Ann
Rhagfyr 3: Dan ofal Tomos
Rhagfyr 10: Parchg. Dewi T. Morris
Rhagfyr 17: Parchg. Cledwyn Williams

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Llais Ogwan

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Priodas

Dymuniadau gorau i Mererid a Bryan, Walnut Cottage, ar ddydd ei priodas dydd Sadwrn, Tachwedd 4. Cawn lun ar gyfer y rhifyn nesaf.

Gwellhad buan

Gwellhad buan i Jane, Rhif 4 o'r pentref. Cafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd a bellach yn gwella'n dda. Hefyd, cafodd Aled Huws, Cil Marian, lawdriniaeth yn Ysbyty Walton yn ddiweddar. Mae yntau hefyd yn gwella ac yn dechrau cerdded o gwmpas yr ardal.

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Difrod i Sant Tegai
Teimlodd yr eglwys nerth Corwynt Ophelia yn ystod mis Hydref pan syrthiodd rhan o fur canllaw y tŵr gan ddifrodi rhan sylweddol o'r to. Bydd yr adeilad ar gau nes y bydd y sefyllfa diogelwch yn fwy amlwg. Mae croeso i'r gynulleidfa ymuno â gwasanaethau'r Sul yn unrhyw un o eglwysi Bro Ogwen.

Darlith Flynyddol Archesgob John Williams
Diolch i'r Athro Ian Russell ac i Dr. Daphne Russell am drefnu'r ddarlith flynyddol ar Hydref 20. Cafwyd cyflwyniad hynod ddiddorol am Archesgob John Williams gan gwpl priod, y ddau yn awdurdodau ar gyfnod teyrnasiad Iago I, sef Dr. Clive Holmes gynt o Goleg Lady Margaret Hall, Rhydychen, a'i wraig, Dr. Felicity Heal o Goleg yr Iesu, Rhydychen. Roedd y sleidiau lliw yn gweddu'n berffaith â'r thema. Cynhaliwyd yr achlysur yn Neuadd Talgai oherwydd y difrod yn yr eglwys. Diolch i Daphne, Nerys, Avril, Ann, John a Nia am baratoi'r neuadd a'r lluniaeth ar ôl y ddarlith.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Sue Matthews, gwraig y Ficer, ar ei phenblwydd yn 40 oed ac i Sacristan ac Ysgrifenyddes yr Eglwys, Nerys Jones, ar ddathlu ei phenblwydd hithau hefyd ym mis Hydref. Gwerthfawrogir gwaith y ddwy i weinyddiaeth, bywyd a chymdeithas Sant Tegai.

Bingo yr Eglwys

Cynhaliwyd Bingo Nadolig yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth, Tachwedd 14 am 7.00 o'r gloch. Roedd paned yn ystod

yr egwyl hanner ffordd drwy'r noson! Gwerthfawrogir gan Ann neu Rhian unrhyw gyfraniad ar gyfer gwobrau'r dyfodol. Aeth yr arian at Gronfa Atgyweirio Eglwys Sant Tegai yn ôl ein arferiad.

Stondin Ysbyty Gwynedd

Cynhelir stondin Nadolig yr eglwys yn Ysbyty Gwynedd ar ddydd Gwener, Rhagfyr 15, gyda nwyddau a chardiau ar werth. Unwaith eto, gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad ar gyfer y stondin. Mae gwahoddiad i chi, boed yn aelod o'r gynulleidfa neu yn gyfaill i'r eglwys, roi awr neu ddwy o'ch amser i werthu ac i gyfarfod ffrindiau ymysg y cleifion a'u hymwelwyr.

Dymuniadau gorau

Mae sawl aelod o'r gynulleidfa yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty neu yn cryfhau ar ôl gwaeledd. Cofiwn yn ein gweddïau Hefina Chamberlain, Gwyn Edwards, Enid Gardner, Audrey McSorley, Sue Matthews a'r Parchedig J. Aelwyn Roberts.

Rhagrybudd Gwasanaethau'r Nadolig Eglwys Sant Tegai

Bwriedir cynnal gwasanaeth dwyieithog traddodiadol Naw Llith a Charol wrth olau kannwyll ar nos Sul, Rhagfyr 17, a gweler cylchlythyr eglwysi Bro Ogwen er mwyn cadarnhau'r amser. Ceir lluniaeth ysgafn Nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth. Bydd manylion gwasanaeth Noswyl y Nadolig yn rhifyn nesaf Llais Ogwan.

Sul y Cofio

Mae'n draddodiad i aelodau Sant Tegai ymuno â chynulleidfa Eglwys Santes Fair, Tregarth ar gyfer Gwasanaeth Unedig Sul y Cofio. Eleni, roedd y gwasanaeth ar Tachwedd 12 am 9.30yb a chafwyd nifer dda yn mynychu.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Cofion atoch

Tydi Mr Ithel Owen, Penrhiw, ddim yn dda ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion ato. Torri ei arddwrn wnaeth Mr Brian Saunders, Allt Capel Cwta. Cofion gorau ato am wellhad buan - mae'n dal i gerdded o gwmpas yr ardal. Cofiwn am Mr Evans, 2 Bodforus, sydd wedi bod mewn cartref preswyl ym Mhenmon, Ynys Môn, ers amser. Anfonwn ein cofion hefyd at ei briod, sy'n ymweld ag ef yn ffyddlon. Mae Mrs Beryl Orwig wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod. Rydym yn cofio ati ac yn dymuno'r gorau iddi.

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig
Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW
☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Diolch

Hoffai Dic a Glenys Rowlands, 16, Erw Las, Bethesda, a Michelle, Sasha a Dion Rowlands, 11, Gefnan, Mynydd Llandegai, ddatgan eu gwerthfawrogiad unwaith eto am yr haelioni a ddangoswyd gan bobl yr ardal tuag atynt yn ystod eu profedigaeth ddiweddar. Casglwyd cyfanswm o £1528.00 er cof am Dylan, a dosbarthwyd yr arian drwy roi cyfraniad o £1448.00 tuag at Hosbis yn y Cartref Gwynedd a Môn, ac £80.00 tuag at Adran Gofal Lliniarol Ysbyty Eryri, Caernarfon. Diolch yn fawr iawn.

Diolch

Dymuna Beryl a Gareth Llwyd, Talgarnedd, Sgwâr Buddug, ddiolch o waelod calon am yr holl ddymuniadau da, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn eu priodas yn ddiweddar.

‘Llais y Lli’

Llongyfarchiadau mawr i Cian Iolen Rhys, 5 Garneddwen, sydd wedi cael ei ddewis i drosleisio rhan y prif gymeriad mewn ffilm o’r enw ‘Llais y Lli’, a fydd i’w gweld ar y sgrin fach y mis hwn. Bydd y ffilm hudolus hon, sy’n addasiad o’r ffilm Wyddelig ‘Song of the Sea’, yn cael ei darlledu ar S4C nos Sul, Tachwedd 19. Da iawn, Cian!



Yr Eglwys Unedig

Mae’r oedfaon yn dal i fwynhau presenoldeb da ymhob un. Diolch i bawb am eu ffyddlondeb.

Diolchgarwch

Cafwyd gwasanaeth diolchgarwch plant yr Ysgol Sul gyda’r Parch R. O Jones yn gwasanaethu. Cafwyd darlleniad, gweddi a chanu gan y plant – y cyfan yn hyfryd iawn.

Yn ystod y gwasanaeth, casglwyd nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd a chafwyd ymateb gwych gan yr aelodau. Diolch i bawb am eu cyfraniadau a diolch i’r plant a’u hathrawon am wasanaeth graenus dros ben.

Menai a Walter fu’n gyfrifol am drefnu gwasanaeth i’r oedolion a chafwyd nifer dda yn mynychu. Cafwyd oedfa arferol a chanu emynau mewn modd hynod gaboledig. Diolchwyd iddynt gan Jean.

Y Gymdeithas

Llywyddwyd cyfarfod cyntaf y tymor gan Rhiannon. Roedd nifer o’r aelodau yn absennol ac anfonwyd ein cofion atynt. Croesawyd Beti Rhys a chriw o ddisgyblion Ysgol Syr Hugh Owen atom ac fe gafwyd cyngerdd ardderchog ganddynt a mwynhawyd noson dda yn eu cwmni. Angharad oedd yn rhoi’r diolchiadau ac aelodau’r pwyllgor fu’n gyfrifol am y baned. Diolch i bawb.

Mae’r baned ar ôl yr oedfaon ar foreau Sul yn dal i hawlio niferoedd da ac felly hefyd y baned ar foreau Iau.

Mae’r Clwb Celf wedi ail-ddechrau ar foreau Gwener (bob yn ail).

Mae’r Ysgol Sul yn brysur yn ymarfer at eu Gwasanaeth Nadolig.

Diolchodd Jean i’r blaenoriaid am eu gwaith diflino i gadw’r achos yn yr Eglwys – maent yn cyfarfod yn fisol.

Mae’r côr yn ymarfer ar nosweithiau Sul yn dilyn yr oedfa.

Bydd bore coffi Corwynt Cariad arall yn ystod mis Rhagfyr.

Y Cyhoeddiadau

- Tachwedd 19 – Trefniant mewnol
- Tachwedd 26 – Y Parch. Eifion Wyn Williams
- Rhagfyr 3 – Y Parch. John Roberts
- Rhagfyr 10 (10yb) – Oedfa Nadolig y Plant
- Rhagfyr 10 (5yp) – Y Parch. Gwenda Richards
- Rhagfyr 17 (10yb) – Y Parch. Brian Wright
- Rhagfyr 17 (7yh) – Gwasanaeth Cymunedol

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan i’r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar sef Mr. Len Williams, Plas Ogwen, Mrs. Sulwen Lloyd, Glanogwen a Mr. John Wyn Jones, Ffordd Bangor.

Damwain

Cael damwain fu hanes Mrs. Gaynor Davies, Ffordd Ffrydlas, a Mrs. Glenys Morgan, Maes Coetmor hefyd. Da deall eich bod yn gwella wedi triniaeth.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus i Mr. Andrew Roberts, Llain, a ddathlodd benblwydd arbennig ddechrau mis Tachwedd.

Ymddeoliad

Mae Emyr Roberts, Ffordd Bangor, yn ymddeol yn swyddogol o’r Bwrdd Iechyd wedi deugain mlynedd o wasanaeth i ardal Bethesda a’r cyffiniau. Dymuniadau gorau i chi Emyr a gobeithio y byddwch yn mwynhau eich ymddeoliad.

Dymunwn ymddeoliad hapus hefyd i Andre Lomozik, Rhos y Coed, sy’n ymddeol o Uned Rwymo Prifysgol Bangor wedi blynyddoedd o wasanaeth. Pob dymuniad da i chi, Andre – bydd gennych fwy o amser i ymddiddori mewn hanes lleol rŵan!

Cydymdeimlo

Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar ac anfonwn ein cydymdeimlad atynt i gyd:

Helen a Paul, 8 Ffordd Pant. Collodd Paul ei fam yn ystod mis Hydref.

Margaret a Dafydd, 8 Pant Glas, wedi iddynt golli Linda ar Hydref 11.

Teulu Mrs. Elaine Owen, Trem Elidir, Bangor, a fu farw ar Hydref 13.

Teulu Mr. Edward Ceinion Williams, Mynydd Llandygái, a fu farw ar Hydref 15.

Teulu Mr. Ronald Parry, Hen Ysgol, Rachub, a fu farw ar Hydref 26.

Donna a Chris Watts a’r plant, Garneddwen, wedi i Matthew, brawd Donna, farw’n sydyn ar Hydref 30, yn 38 mlwydd oed. Hefyd, ei nain, Mrs. Arfona Edwards, Garneddwen, a’i fodryb a’r teulu, Mrs. Margaret Swift, Maes Coetmor.

Mr. a Mrs. Alan Parry a’r teulu, Glanogwen. Collodd Alan ei nai yn 28 oed.

Marw

Mrs. Lillian Evans
Ar Hydref 7 yng nghartref Ceris Newydd, a gynt o Coed y Parc, Bethesda, bu farw Mrs. Lillian Evans (Lillian Smart) yn 80 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr. David Evans, mam a mam-yng-nghyfraith Siân a Derwyn, a nain annwyl i Elin Lois. Cynhaliwyd ei hangladd ar fore Llun, Hydref 16, yn Amlosgfa Bangor, gyda’r Parchg/Ddr. Huw John Hughes yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â’r teulu oll.

Gorffwysfan

Cynhelir ein Cinio Nadolig ar ddydd Gwener, Rhagfyr 8, yn Neuadd Ogwen am 12.30yp. Enwau i’r Gorffwysfan, os gwelwch yn dda.

Diolch

Dymuna Neville Hughes, Ffordd Pant,

ddiolch o galon i bawb a gofiodd amdano ar achlysur dathlu ei benblwydd yn 80 mlwydd oed ar Hydref 26. Roedd wedi synnu bod cymaint o bobl wedi cofio amdano yn ei henaint!

Diolch am yr holl gardiau, anrhegion, cyfarchion personol – rhai ohonynt ar ebost a ffôn!

Roedd yn braf gweld y teulu oll wedi dod yr holl ffordd o bellafoedd Caerdydd gan wneud y dathliad yn un cofiadwy dros ben!

Diolch hefyd i gyfeillion lu, yn cynnwys aelodau Capel Bethlehem, Cyngor Cymuned Bethesda, Plaid Cymru Dyffryn Ogwen, criw plygu Llais Ogwan a phlant Dosbarth Awel Ysgol Llandygái.

Sefydliad y Merched Llandygái

Rhoddodd Irene y croeso arferol i bawb i gyfarfod mis Hydref. Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi gan Sheila.

Gwella mae Rita ar ôl ei thriniaeth ond, gwaetha'r modd, mae Hefina yn bur wael yn yr ysbyty. Anfonwyd ein cofion atynt.

Darllenwyd llythyr y ffederasiwn a thrafod ei gynnwys – newyddion da i Sheila gan ei bod wedi ennill £75 ar y Clwb Cant!

Gareth Roberts o Menter Fachwen oedd ein siaradwr gwadd. Yn ei ffordd ddihafal ei hun, rhoddodd awr llawn gwybodaeth ddiddorol i ni. Soniodd am hen Eglwys Pentir a sut, yn dilyn gwaith cloddio, y cafwyd hyd i garreg fedd yn dyddio'n ôl i 1675! Diolchwyd iddo gan Anne am bnawn diddorol iawn yn ei gwmni.

Enillwyd y raffl gan Sheila.

Y cyfarfod nesaf fydd y Cyfarfod Blyneddol, ar Dachwedd 25.

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs. Alison Williams, Karen, Jude a Chris yn eu profedigaeth o golli Ceinion. Gŵr a thad annwyl Andrew a Joe, mab a mab-yng-nghyfraith. Taid Sophie a Thomas. Bydd chwith mawr ar ei ôl ac rydym yn meddwl amdanoch. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad hefyd at Mrs. Mair Williams a Mrs. Elna Bullock, mam a chwaer Ceinion.

Diolch

Dymuna Alison, Karen, Jude a Chris ddatgan eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ôl colli Ceinion. Diolch i'r holl ffrindiau a chymdogion a ddaeth ynghyd i gofio amdano yn y gwasanaeth yn Eglwys Glanogwen, Bethesda. Diolch o galon i'r Canon Emlyn Williams am ddod yn ôl i'r plwyf, fel ffrind, i gymryd y gwasanaeth. Bydd y rhodd o

£2,000 a dderbyniwyd er cof am Cein yn mynd at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Tachwedd 19: Boreol Weddi
Tachwedd 26: Cymun Bendigaidd
Rhagfyr 3: Gwasanaeth Teuluol
Rhagfyr 10: Cymun Bendigaidd
Rhagfyr 19: Gwasanaeth Naw Llith a Charol.
Dechreuir y gwasanaethau am 9.45yb.
Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau ar foreau Sul.
Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Ffair Nadolig yr Eglwys

Cynhelir y Ffair Nadolig rhwng 11 - 2 o'r gloch Ddydd Sadwrn, Tachwedd 18. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael dros yr awr ginio. Cofiwch ymuno â ni i wneud ychydig o siopa Nadolig neu am sgwrs, paned a mins pei.

Dathlu Pum Cenhedlaeth

Llongyfarchiadau i Mrs Mary Gweneth Griffith, Gors yr Eira, Mynydd Llandygái ar ddathlu ei phenblwydd yn 104 mlwydd oed ar Hydref 5. Hefyd, mae hi'n dathlu genedigaeth ei gor-or-wŷr, Cedri, sef 5ed cenhedlaeth y teulu.



Yn y llun mae Mary Gweneth Griffith gyda'i merch, Einar Frodsham, ei wŷres, Angela Griffiths, ei gor-wŷres Catrin Sarah Griffiths a'i gor-or-wŷr, Cedri William Hanks, a gafodd ei eni ar Hydref 9.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Achub y Plant

Byddwch wych; byddwch wlanog!

Bydd y wlad yn troi'n wlanog unwaith eto y Nadolig hwn wrth i blant ac oedolion mewn ysgolion, cartrefi a swyddfeydd wisgo eu siwmperi gwirionaf ar gyfer Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant ar ddydd Gwener, 15fed o Ragfyr.

Nod Diwrnod Siwmpwr Nadolig yw codi arian ar gyfer cefnogi gwaith yr elusen yn rhyngwladol a hefyd yma yng Nghymru. Gofynnir i bawb wisgo siwmpwr liwgar a chyfrannu £2 (£1 os mewn ysgol) gyda'r holl arian a gesglir yn mynd tuag at helpu plant mwyaf bregus y byd; boed hynny'r rhai sy'n byw mewn gwersylloedd i ffoaduriaid neu ardaloedd rhyfelgar, yn dioddef o newyn neu drychineb naturiol, neu'n profi effeithiau tlodi yma yng Nghymru.

Ers lansio Diwrnod Siwmpwr Nadolig yn 2012 mae wedi codi swm o £13.5 miliwn, a'r llynedd fe godwyd y swm aruthrol o £4 miliwn o bunnoedd. O jrsis sy'n janglo i siwmperi sy'n goleuo a disgleirio, eleni mae Achub y Plant yn gobeithio y bydd 5 miliwn o bobl yn cymryd rhan a byddai'n braf petai trigolion yr ardal yn ymuno yn yr hwyl at achos teilwng iawn.

- Gallai £1 brynu tabled puro i gyflenwi teulu gyda dŵr yfed glân
- Gallai £2 brynu pâr o esgidiau gaeaf i blentyn yn Afghanistan
- Gallai £400 brynu dŵr potel a blancedi thermol i 50 o blant

Pecyn Codi arian Cymraeg ar gael i ysgolion a'r cyhoedd

Gellir cofrestru ar www.christmasjumperday.org, ac unwaith i chi wneud hynny cewch e-bost fydd yn mynd a chi at dudalen lle gellir dewis fersiwn Gymraeg o'r pecyn codi arian yn ogystal â phosteri i'w llawrlwytho. Mae'r pecyn yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol a dwl i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmpwr Nadolig yn llwyddiant.

Ymysg eraill, bydd siopau WH Smith yn cefnogi Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant eleni drwy greu dau dedi bêr arbennig o'r enw Benji a Bruno. Gwerthir y tedis mewn siopau WH Smith ledled Cymru â'r DU am £4.99, gyda £1 o bob gwerthiant yn mynd tuag at yr elusen.

Os am sgwrs yn y Gymraeg am Ddiwrnod Siwmpwr Nadolig neu waith Achub y Plant yn gyffredinol, cysylltwch â Rhian Brewster neu Eurgain Haf ar 029 20 396838 neu e-bostiwch r.brewster@savethechildren.org.uk neu e.haf@savethechildren.org.uk

Cewch fwy o wybodaeth hefyd ar ein tudalen Facebook [@savethechildrenwales](#) a Twitter [@savechildrencym](#) a chofiwch ddanfôn eich lluniau atom ar y gwefannau cymdeithasol drwy ddefnyddio #diwrnodsiwmpwrnadolig.

Twnnel Pendinas ar Lôn Las Ogwen



Mae'n bleser gennym allu adrodd bod arwyddion newydd wedi eu gosod ym mhob pen o Dwnnel Pendinas a agorwyd ar Lôn Las Ogwen ym mis Ebrill eleni. Siom a thristwch oedd gweld yr arwyddion gwreiddiol a osodwyd yno a oedd yn cyfeirio at 'Tynal Tywyll' fel enw llafar a ddefnyddiwyd ar y twnnel yn y cyfnod diweddar, heb unrhyw gyfeiriad at yr enw arferedig - 'Twnnel Pendinas' - a oedd wedi bod ar lafar am gyfnod llawer hirach ers datblygiad y twnnel rheilffordd hwn.

Cynhaliwyd ymgyrch gan Fenter Iaith Dyffryn Ogwen a haneswyr lleol er mwyn dwyn pwysau ar Gyngor Gwynedd i arddel yr enw 'Twnnel Pendinas' ar y datblygiad pwysig hwn a fydd o fudd mawr i gerddwyr a beicwyr sy'n mwynhau defnyddio Lôn Las Ogwen, sy'n rhedeg yn awr o Nant Ffrancon i lawr i Borth Penrhyn. Bu croeso mawr yn lleol i'r grantiau a dderbyniwyd i wireddu'r cynllun i ailagor Twnnel Pendinas ac i gwblhau Lôn Las Ogwen.

Fodd bynnag, daeth yn amlwg o'r ymgyrch hon ei bod yn hollbwysig bod Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned yn ymgynghori'n eang gyda mudiadau, cymdeithasau ac unigolion yn lleol er mwyn penderfynu ar yr enw swyddogol a fydd yn cael ei fabwysiadu ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd. Mae angen gwarchod a hyrwyddo enwau Cymraeg sydd wedi bodoli ar wahanol lecynnau yn hanesyddol.

Byddai'n dda gweld gwybodaeth wrth ymyl yr arwyddion am Bendinas, a chyfeiriad at y fryn-gaer Frythonaidd y mae'r twnnel yn mynd o dan ei safle, ac at y tŷ o'r un enw, sef cartref y bardd a'r hanesydd lleol Hugh Derfel Hughes, awdur *Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid*, a'i ŵyr, yr Athro Ifor Williams, un o ysgolheigion disgleiriaf Cymru a'r awdurdod pennaf ar enwau lleoedd.

Gareth Llwyd

Llais Ogwan

Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Hydref, aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod misol Plaid Lafur Arfon ym Mangor i drafod y papur ymgynghorol am y penderfyniad i gael dirprwy arweinydd Plaid Lafur Cymru am y tro cyntaf, ac i dderbyn adroddiad am gynhadledd Plaid Lafur Prydain (e.e. rhai o bwysigion y Blaid Lafur a oedd yn erbyn Jeremy Corbyn bellach yn newid meddwl) ac i ddechrau gwneud trefniadau am y fforymau polisi ac yn y blaen. Yn hwyrach yn y mis, cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru yn Llanellwyr, yn bennaf i gael trafodaeth efo Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Plaid Lafur Cymru (Louise Magee) a derbyn

adroddiad gan un o'n cynrychiolwyr ar bwyllgor gwaith Plaid Lafur Cymru (Donna Hutton), e.e. yr ymdrech i gael mwy o gynrychiolwyr benywaidd. Da yw gweld bod lloches bws wedi cael ei godi ger siop Spar Bethesda gan Gyngor Bethesda, yn bennaf oherwydd ymdrechion diflino'r Cynghorydd Walter Williams - ef sydd hefyd wedi bod yn bennaf gyfrifol am drefnu'r cyngherddau Gŵyl Ddewi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cynhelir Ffair Nadolig y gangen gyda Siôn Corn a'r stondinau arferol ar fore Sadwrn diwethaf y mis hwn (Tachwedd 25) yn Neuadd Ogwen.

Ysgol Bodfeurig



Cydnabyddiaeth genedlaethol i'r ysgol

Cafodd Ysgol Bodfeurig ei chynabod am ragoriaeth yn ddiweddar mewn seremoni genedlaethol. Cynhaliwyd y seremoni gan Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Dim ond tair ysgol o Ogledd Cymru gafodd eu cydnabod yn y fath fodd.

Nodwyd yn adroddiad Estyn fod Ysgol Bodfeurig yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gan addasu'r cynlluniau yn fedrus er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn greadigol iawn. Cafodd yr ysgol gydnabyddiaeth am ragoriaeth o ran profiadau dysgu, arweinyddiaeth a gwella ansawdd. Yn ogystal â datblygu cynlluniau arloesol o fewn yr ysgol, bu canmol hefyd am rannu profiadau gydag ysgolion eraill o fewn y sir.

Mae pawb sydd ynghlwm â'r ysgol yn falch iawn o'r wobwr yma, sydd yn glod i'r gwaith caled sydd yn mynd ymlaen yn yr ysgol gan y plant, y staff a'r rhieni. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.

Gwasanaeth e-ddiogelwch

Ers dros flwyddyn bellach, mae'r ysgol yn dilyn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, sydd yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau TGCh ac yn eu paratoi ar gyfer y byd technolegol sydd o'u cwmpas. Rhan o waith y Fframwaith yw dysgu'r disgyblion am bwysigrwydd e-ddiogelwch, ac fel rhan o hyn cynhaliodd Dosbarth Ogwen wasanaeth i blant a rhieni'r ysgol i'w dysgu sut i fod yn ddiogel ar-lein. Diolch, Dosbarth Ogwen!

Neges gan y Cyngor Ysgol

Helo! Mabli a Nel ydan ni o Gyngor Ysgol Bodfeurig. Mae'r swyddogion wedi eu dewis erbyn hyn ac yn brysur â'u gwaith. Dyma sydd wedi bod yn digwydd yn ein Cyngor Ysgol ni y mis yma:

Cafodd pob dosbarth gyfarfod Cyngor Dosbarth a chasglwyd llawer o syniadau diddorol am yr hyn y gallem ei wneud eleni. Un syniad oedd i gasglu bwyd ar gyfer Banc Bwyd y Gadeirlan ym Mangor a chafwyd casgliad mawr. Diolch i bob un a gyfrannodd.



gair neu ddau

John Pritchard

METHIANT A DIRYWIAD?

Aeth pythefnos a mwy heibio ers i mi weld rhaglen *Y Byd ar Bedwar* ar S4C am gyflwr presennol eglwysi Cymru. Ers hynny, bu'r rhaglen yn destun trafod ar lafar ac ar bapur, gydag ambell un yn fwy na pharod i fwrw ei lach ar arweinwyr yr enwadau am eu 'methiant' i wneud dim i atal y dirywiad a rhoi sglein ar fywyd yr eglwysi. Druan ohonom os ydym yn credu mai'r rhain, a dreuliodd eu hoes yng ngwasanaeth yr eglwysi a'r Efengyl, sydd bennaf gyfrifol am y cefnu a fu ar Dduw yn ein gwlad dros y ganrif ddiwethaf.

Doedd hi ddim yn rhaglen gysurus i'w gwyllo oherwydd y darlun truenus a roddai o gyflwr ein henwadau a'n heglwysi. Ond doedd hi chwaith ddim yn rhaglen a'n synnodd gan ein bod yn gwybod yn rhy dda am y gostyngiad enfawr a fu dros yr ugain mlynedd diwethaf yn niferoedd aelodaeth yr eglwysi a'r enwadau. Yn ôl y rhaglen, yr ystadegau hynny yw'r arwydd mwyaf amlwg o ddirywiad yr eglwysi ac o fethiant eu harweinwyr. Dau beth y carwn eu dweud wrth ymateb i'r rhaglen: yn gyntaf, wrth gwrs ein bod wedi methu; ac yn ail, pa ddirywiad?

Wrth gwrs ein bod wedi methu fel eglwysi a'u harweinwyr. Does dim angen bod yn glyfar iawn i weld hynny. Wrth gwrs nad yw'r gallu gennym i ennill pobl i'r Ffydd ac i adeiladu eglwysi. Wrth gwrs nad ydym wedi llwyddo i rannu'r newyddion da yn effeithiol. Does dim angen rhaglen deledu i ddweud hynny wrthym. Ond nid cyffesu'r methiant hwnnw i'r byd a'r betws sydd ei angen ond ei gyffesu i Dduw. Ac fe wnawn hynny bob dydd gobeithio, gan ddiolch yr un pryd mai Duw ei hun yn unig sy'n medru llwyddo'i waith.

Ac nid claddu fy mhen yn y tywod wyf wrth ofyn, 'Pa ddirywiad?' Mynnai'r rhaglen fod dirywiad enfawr wedi bod dros yr ugain mlynedd diwethaf. Mae'n wir fod llawer o gapeli wedi cau, a bod rhif aelodaeth mwyafrif yr eglwysi wedi gostwng dros y cyfnod hwnnw. Ond rhan o'r stori yw hynny. Ni all neb wadu'r ffaith fod eglwysi wedi darford ac eraill ar fin darford; ond nid yw hynny'n golygu o reidrwydd bod llai o Gristnogion yng Nghymru heddiw nag oedd ugain a deugain mlynedd yn ôl, na bod i'r Ffydd lai o afael nag a fu ar ein pobl.

Ond os bu dirywiad, mae'n rhaid ei olrhain ymhellach yn ôl o lawer na'r ugain mlynedd diwethaf. Mae gen i gof fel y byddai pobl, hanner canrif yn ôl, yn cyfeirio at aelod arbennig o'r eglwys y'm maged ynddi fel 'Pilgrim'. I mi, mae'r llysenw hwnnw'n awgrymu bod duwioldeb a ffydd yn bethau dieithr i drwch aelodaeth yr eglwysi bryd hynny, yn y dyddiau pan oedd llawer mwy o fri ar grefydd yn ein gwlad. Lleiafrif fu Cristnogion erioed, hyd yn oed yng Nghymru; a lleiafrif ydym o hyd.

Ond y cysur yw bod yma o hyd leiafrif. Dros ddeugain mlynedd yn ôl, cefais y fraint fawr o weld Duw ar waith mewn ffordd ryfeddol ymhlith criw o bobl ifanc pan oeddwn yn fyfyrwr ym Mangor. Blynnyddoedd arbennig iawn oedden nhw: pobl ifanc yn cael tröedigaeth, yn tystio dros Grist ac yn cael bendith fawr mewn cyfarfodydd gweddi a seiadau ac oedfaon o bob math. Dros y deg neu bymtheng mlynedd diwethaf, profwyd o'r newydd bethau digon tebyg yn ein gwlad gan lawer o bobl o bob oed. A hynny hefyd sy'n gwneud i mi yn wylaidd fentro gofyn, 'Pa ddirywiad?' neu o leiaf holi am faint a natur y dirywiad hwnnw.

42 Y Ddôl
PORTHMADOG
LL49 9HY

Hydref 2017
Annwyl Olygydd
Yn ddiweddar, daeth i'm llaw lyfryn bach (uniaith Saesneg) gyda'r teitl 'Entrance Scholarship Examination 1920': hanes canlyniadau yr hen arholiadau y'i gelwid ar lafar fel yr "Eleven plus".
Yn y lyfryn, mae'r hen Sir Gaernarfon wedi ei rhannu yn unarddeg ardal. O dan ardal Bangor, er enghraifft, mae ysgolion gynradd Llanfairfechan, Dwgyfylchi, Penmaenmawr, Glanadda a Bangor ei hun.
Fel merch wedi ei geni a magu ym Mhorthmadog, daeth gwên o fodlonrwydd i'm hwyneb pan welais restr o ganlyniadau yr arholiad yn ardal Porthmadog (ysgolion cynradd Porthmadog, Beddgelert, Criccieth a Rhyd Ddu).
Stori wahanol oedd hi pan ddarllenais am yr ardal waethaf drwy Sir Gaernarfon. Er â minnau yn hogan Port, mae bro Dyffryn Ogwen yn agos at fy nghalon gan fod fy nhaid a nain (ochr fy mam) o Dregarth a nifer o 'nheulu wedi eu claddu yn mynwent Eglwys Gelli. Gyda nain yn un o naw, a taid hefyd yn un o naw, mae'n debyg fod gennyf lawer iawn o berthnasau a disgynyddion o gwmpas ardal Llais Ogwen!
Yr oedd ardal Bethesda ar waelod y rhestr yn 1919 ac ar waelod y rhestr yn 1920 - ychydig o gylllell yn fy nghalon, i ddweud y gwir. Y fath syndod a siom!
Yr ysgolion cynradd yn ardal Bethesda yn ystod y cyfnod yma oedd Llandegai, Tregarth, Glasinfryn, Gerlan, Rhiwlas, Cefnfaes, Glanogwen, Tregarth a Llanllechid.
Ni allaf gredu fod safonau yr ysgolion yn ardal Bethesda mor isel â hyn. Does raid i mi ond meddwl am fy mam. Aeth i Ysgol Tregarth, ac wedyn i Ysgol Dyffryn Ogwen. Bu'n llwyddiannus yn arholiadau y Gwasanaeth Gwladol yn 1937 ac mae gennyf lythyr wedi ysgrifennu gan fy nhaid 80 o flynyddoedd yn ôl mewn Cymraeg ardderchog.
Beth yw'r rheswm dros ganlyniadau mor wael, tybed? Byddwn yn ddiolchgar clywed barn trigolion yr ardal sydd â rhywfaint o arbenigedd yn y maes ac edrychaf ymlaen at weld os y bydd ymateb i'r llythyr hwn yn rhifyn nesaf Llais Ogwan.
Diolch.

Yr eiddoch yn gywir,
Mrs Carol A. Hayes

Maes Meini
Rhyduchaf
Y Bala
LL23 7SD
01678 520293
maes.meini@btinternet.com

24/10/17
Annwyl Syr/Madam
Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £500 i fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddianus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o'r gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Disgwylir i'r ymgeisydd fod yn 18 oed a throsodd.
Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.
I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Medwen Charles, Maes Meini,
Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD. maes.meini@btinternet.com
Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2018.

Yn gywir,
Medwen Charles

Annwyl Syr/Madam,
Dwi'n rhedeg gwefan blog Cymraeg (llioangharad.cymru) ac yn y flwyddyn newydd bydd y wefan yn cael ei ehangu i fod yn wefan cylchgrawn sy'n trafod ffasiwn, harddwch a materion cyfoes. Pwrpas y wefan yma ydi hybu plant a phobl ifanc ledled Cymru i rannu cynnwys cyfoes ar wefannau cymdeithasol yn Gymraeg a'u hannog i dafod pynciau poblogaidd yn y Gymraeg gydag eraill.
Mae'n hynod bwysig ein bod yn cyrraedd cyn gymaint o bobl a sy'n bosib o amgylch y wlad ac annog pawb, o bob oedran a gallu Cymraeg, i gymryd rhan.

Felly, dwi'n chwilio am gyfrannwyr i ysgrifennu erthyglau yn achlysurol. Nid

Annwyl Olygydd,
Fy enw i ydi Caleb Rhys Jones, myfyriwr blwyddyn olaf yn Adran Gerdd Prifysgol Bangor. Rydw i ar fin cwblhau fy nhraethawd gradd, ac wedi penderfynu ymchwilio i faes cerddoriaeth gysegredig capeli Bethesda. Rydw i'n bwriadu edrych ar bedwar sefydliad crefyddol penodol, sef capeli Carneddi, Bethesda, Jerusalem a Bethania.
Tybed a oes gan ddarllenwyr y Llais unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud â'r maes hwn? Rydw i'n edrych ar gyfer unrhyw ddeunydd, boed yn rhaglenni, pamffledi, erthyglau, llawysgrifau neu'n hanesion.
Petaech chi'n fodlon cyfrannu, mi fyddwn yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth berthnasol. Cysylltwch â mi ar 07810316917 neu caleb.rhys.jones@gmail.com

Diolch o galon i chi,
Caleb Rhys Jones

Llais Ogwan

Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan



yn unig hynny, ond dwi hefyd yn chwilio am unigolion i fod yn rhan o panel fydd yn cyfarfod yn achlysurol dros Skype neu mewn cyfarfod (bydd hyn yn cael ei drafod yn y man ac yn ddibynnol ar faint sy'n dangos diddordeb ym mhob ardal). Bwriad y panel ydi gwneud yn siwr fod pawb o bob cefndir yn cael y cyfle i gynnig syniadau gwahanol ar gyfer y wefan.
Os oes rhywun 'da chi'n ei adnabod sydd â diddordeb, mae modd cysylltu drwy ebostio contact@llioangharad.cymru neu ar y dudalen Facebook: facebook.com/lloffasiwn

Diolch yn fawr,
Llio Angharad
Gwefan: <http://llioangharad.cymru>
Ffôn: 07926100303

Atodiad Hysbysebion

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Gwasg Ffrancon

Argraffwyr

Dôl Ddafydd,
Bethesda
LL57 3LY
Llun-gopïo lliw llawn

Ffôn: 01248 601669
Ffacs: 01248 602634
gwasgffrancon@btconnect.com

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol
Trydanwr cymwysiedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541 870

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

BARBWR OGWEN



Mae Alison yn dymuno Nadolig
Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda i'w chwsmeriaid i gyd.

Diolch am eich cefnogaeth
drwy'r flwyddyn



CAFFI FITZPATRICKS

Rhes Ogwen, Bethesda
Ffôn : 01248 602416

Bwyd i'w fwyta i mewn
neu i'w gario allan



Balconi ar Agor
Golygfeydd o Barc Meurig ac Afon Ogwen

Oriau Agor y Gaeaf

Dydd Gwener

9.00 y bore – 3.00 y pwn

Sadwrn a Sul

9.00 y bore – 5.00 y pwn

Ar agor: Rhagfyr 22, 23, 24
Cau dros Wyliau'r Nadolig

Ail agor Dydd Gwener 5 Ionawr 2018

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl
gwsmeriaid. Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Mae croeso cynnes yn nhafarn
PANT YR ARDD, Tregarth

gan Bob a Louise - 7 diwrnod yr wythnos

Enillwyr "Tafarn Gymunedol y Flwyddyn 2016"

Oriau Agor Dydd Nadolig:
11.00yb – 2.00yp; 5.00yh – 12.00.

Diolch yn fawr i'r pentrefwyr am eu cefnogaeth
Nadolig Llawen



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



BELLS

Stryd Fawr, Bethesda

Ffôn: 07776365509

DODREFN NEWYDD
AC AIL-LAW, CARPEDI

Nadolig Llawen

TRENDS

Trin gwallt merched a dynion

Rhes Victoria
Bethesda
01248 600988

Diolch am eich cefnogaeth
Nadolig Llawen

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

Mae croeso cynnes yn

Y Siôr

Carneddi
gan Dewi a'r criw

Cwrw traddodiadol Cymreig
Tân braf - Amser difyr

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda i
bawb

CAFFI SEREN

Bethesda

Oriau agor
Llun i Gwener : 8.30yb – 4.00yp
Dydd Sadwrn : 9.00yb – 3.30yp
Dydd Sul : 9.00yb – 2.30yp

Bwyd Cartref
Traddodiadol

Partïon i Blant

01248 600661

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth John a'r Staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Oddi wrth holl Gynghorwyr
Plaid Cymru yn Nyffryn Ogwen

Y Cyngorydd Paul Rowlinson
(Cyngor Gwynedd – Ward Gerlan/Rachub)
01248 605365

Y Cyngorydd Rheinallt Puw
(Cyngor Gwynedd – Ward Ogwen)
07789 742092

Y Cyngorydd Dafydd Owen
(Cyngor Gwynedd – Ward Llandygai)
01248 605523

Y Cyngorydd Dafydd Meurig
(Cyngor Gwynedd – Ward Arllechwedd)
00765 400140

Hefyd ein holl Gynghorwyr ar Gyngorau
Cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai

Croeso Cynnes i'r
Royal Oak

Rachub
oddi wrth
Alison a Geraint


gan ddymuno
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052



Siopa Nadolig yn Siop Ogwen

Crefftau, Celf, Gemwaith ac anrhegion unigryw o Ddyffryn
Ogwen a'r cyffiniau
Ystod eang o lyfrau, cerddoriaeth a dvds Cymraeg

Gellir archebu llyfrau'r Nadolig gennym a dewch i'n gweld
mewn Ffeiriau Nadolig lleol dros y mis nesaf.

Noson Siopa Hwyr

Bydd Siop Ogwen a nifer o fusnesau Stryd Fawr Bethesda
ar agor ar y 22ain o Dachwedd
5-8pm

Croeso Cynnes i Bawb!

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



CAR CARE
CENTRE

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig

Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Siop y Pentref Rachub

 01248 600224

**DEWIS HELAETH O
NWDYDDAU**

Bwydydd ♦ Papurau Newydd

♦ Da-da ♦ Cardiau ♦ Diodydd - Gwinoedd a
Gwirodydd.

**Hyn i gyd mewn awyrgylch cyfeillgar a
chroesawus**

Hefyd

Peiriant Arian Parod (Heb Dâl),
Gwasanaethau'r Swyddfa Bost, Loteri.

*Mae Iain, Janet a Rebecca yn dymuno Nadolig
Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl
gwsmeriaid hen a newydd.*

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

**Prynwch danysgrifiad i Lais Ogwan,
Yr anrheg Nadolig delfrydol**

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57
3NN

post@llaisogwan.com

 01248 600184



PEN Y CEUNANT ISAF

Y BWTHYN TÊ
www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW

01286 872 606



MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr : Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru



electricals
andrew duggan

Atgyweiriadau teledu a fideo,
offer sain, derbynwyr lloeren.
Hefyd gwerthiant a gwasanaeth

34 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AN
Ffôn/Ffacs 01248 602584

BYSUS
D. J. Owens
RHWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhlwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DISYNAWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Cyfarchion y Nadolig
oddi wrth Gynghorwyr y
Blaid Lafur

Bethesda

Susan Davies, Rachub 600544
Pearl Evans, Rachub 600153
Godfrey Northam, Rachub 600872
Walter Williams, Ogwen 601167

Llandygai

Gwen Griffith, Mynydd Llandygai /
St. Anne's (601081)

Prydau Tsieineaidd

(i'w bwyta allan)
Junction

11 Stryd Fawr, Bethesda

01248 342566

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



DŴR Y MYNYDD

Prydau Tsieineaidd

(i'w bwyta allan)

7 Rhes Ogwen, Bethesda

01248 601248

Ar agor bob dydd : 5yh – 10yh
(heblaw dydd Mawrth)

Cyfarchion y Tymor oddi wrthym
ni ac oddi wrth yr Olchfa

Am eich
Gwaith Weldio Lleol

Hefin
Hughes



1 Stryd Hir, Gerlan, Bethesda

☎ 07802168121 (symudol)

GWASANAETH TEIARS ANDY

Teiars ar gyfer Car,
Tractor, Tryc a Lori
hefyd

Trwsio, Tracio a Balansio

HEB SYMUD

Y Busnes yn dal yn
Uned 10, Felin Fawr,
Coed-y-parc, Bethesda.
LL57 4YY

Ar agor pnawn Llun, dydd Mawrth a dydd Iau

Ffôn: 01248 601591

Diolch i'n cwsmeriaid am eu
cefnogaeth.

Nadolig Llawn i Bawb

Copa
Siop a Harddwch
Bethesda

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau

Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

*Cefnogwch ei busnesau lleol
dros y Nadolig*

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth Ann a Glyn



Tafarn y Tarw

Bwyd ar gyfer angladdau, partïon,
bedydd a.y.y.b.

☎600438

Diolch i'n holl gwsmeriaid yn
ystod y flwyddyn ddiwethaf

Marchnad Ogwen

Tachwedd 22ain
Neuadd Ogwen, 5.00pm - 8.00pm

Rhagfyr 9fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Ionawr 13eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

Cyfarchion y Tymor
oddi wrth Staff

Fferyllfa BOOTS

Bethesda (600331)
Diolch am eich cefnogaeth
(Siop ar gau Rhagfyr 25 a 26)

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan



Yr anrheg Nadolig
ddelfrydol

£4.00 yn y siopau lleol
neu ffoniwch

Walter Williams
01248 601167

TESCO EXPRESS

"Every Little Helps"
Stryd Fawr, Bethesda
01248 489337

Ar agor
7 diwrnod yr wythnos
06.00 yb - 23.00 yh.
(ac eithrio dydd Nadolig)
Gwasanaeth "Clicio a Chasglu"

Diolch i'n cwsmeriaid

**Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda**

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Ann Jeanette

Nodwyddwraig
34 Stryd Fawr, Bethesda
☎ 01248 600377



Diolch yn fawr am gefnogaeth fy
nghwsmeriaid drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Meithrinfa Ogwen Cyf.

☎ 01248 605555

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth Delyth
a'r staff i gyd

Clwb Ysgol Llanllechid

☎ 07899 794 135

Delyth Jeffreys
(Burgess)
Nantgraen
Braichmelyn



Cegin Brysur

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. Pen-blwydd, bedydd, hefyd cacennau
cartref, sbwng, siocled a fectoria, bara
brith, "cup cakes" ac ati.
Marchnad Ogwen bob mis.

☎ 01248 602169 neu 07748435375

Nadolig Llawen
Diolch am eich Cefnogaeth



Nadolig Llawen a lechyd Da

oddi wrth Griw
Cwrw Ogwen.

Boed aea'
neu ha' mae'n
sobor o dda!

Mabinogion

Stryd Fawr, Bethesda

☎: 600899

Pryd ar Frys
Pysgod a Sglodion
Pizzas ac ati



Diolch i'n holl gwsmeriaid
am eu cefnogaeth

W.H. LEWIS a'i FEIBION (Jess a Tom)

68-70 STRYD FAWR, BETHESDA, LL57 3AR
Ffôn: 01248 600210 e-bost: whlewisandsons@gmail.com

NWYDDAU GWELLA'R CARTREF
TANWYDDAU: COED, GLO a NWY
OFFER PYSGOTA
NADOLIG LLAWEN

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiw

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995



salon
gwalt a harddwch

Ffordd Pen-y-bryn, Bethesda

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Catrin a Sue
Catherine ac Annest

**Diolch am eich cefnogaeth
ar hyd y flwyddyn**

Rydym yn cynnig
"Shellac", "Threading", "Party lashes",
Gwallt a cholur priodas.
Aeliau "HD Eyebrows"

Am ragor o fanylion am ein holl
driniaethau, neu i wneud apwyntiad
Galwch: 01248 600861
serenahairandbeauty@gmail.com

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORAU AGOR

Llun - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 16:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219



*Cofiwch gefnogi
holl fasnachwyr
y fro*

HUGHES A HUGHES

Adeiladwr / Saer Coed

**Bryn Awel
Talybont**

☎ (01248) 354268 a 601598
07957 735915

Amcan-bris am ddim

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

- ♦ Awyrgylch Cyfeillgar a Hapus ♦
- ♦ Bwydydd Poeth ♦ Bara Ffres ♦ Eich Holl Anghenion ♦
- ♦ Loteri Cenedlaethol ♦ Paypoint ♦ Peiriant codi arian di-dâl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda**

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

POPTY BAKERY



Sefydlwyd 1900

Rachub, Llanllechid (01248) 600517

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda





C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn 01492 641798
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

O Law i Law

55 Stryd Fawr, Bethesda
Prynu a Gwerthu
Llyfrau, Llestri, Lluniau a Chelfi
GWAGIO TAI

Galwch i mewn
neu
ffoniwch Maggie Roberts
07836646673
maggierobertsl@gmail.com

Nadolig Llawn
Diolch am eich cefnogaeth



CROCHENDY BETHESDA

Stiwdio Crochenwaith ac Oriel Celfyddyd Gain
40 Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd, LL57 3AN
07952153955

www.iandodgsonfinearts.co.uk

GWASANAETH GLANHAU HUGHES

5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)

Glanhau ffenestri: Golchi landeri, faccias a soffits.
Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV
Golchi 'meddal' - patios, "decking" a llwybrau
Golchi toeau ystafelloedd gwyrdr

Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250
pamela-stwnch@hotmail.co.uk



TRYFAN AGRI

PEIRIANNAU AMAETHYDDOL A THIROFAL

* LLIFIAU CADWYN A CHYNYRCHION ECHO

* DARNAU AC OFFER I DRACTORAU
A PHEIRIANNAU FFERM

* OFFER HOLITI COED

* OLEW A SAIM

PEIRIANNAU TORRI GWAIR A GWYRYCHOEDD
... A LLAWER MWY

Am fwy o fanylion, cysylltwch a ni
ar y rhifau isod

UNED 2, STAD DDIWYDIANNOL PANTDREINIOG,
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3LP

01248 600103 NEU 07891 172649
www.tryfanagri.co.uk

Marchnad Ogwen

Dwy Farchnad Nadolig yn Neuadd Ogwen

Nos Fercher, 22 Tachwedd

5.00 – 8.00yh

gyda'r BONCATHOD yn diddanu

Bore Sadwrn, 9 Rhagfyr

9.30 – 1.00yp

*Dyma ddau gyfle gwych i wneud
eich siopa Nadolig – heb anghofio'r siopau lleol*

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth holl fasnachwyr y fro



Ar agor pob
dydd, 365
diwrnod y
flwyddyn.

Spar Bethesda

01248 600584

Cyfleusterau ar gael:

Loteri Cenedlaethol, PayPoint, Swyddfa Post, Bwyd i fynd,
Gwasanaeth dosbarthu i'r cartref ar gael. Cysylltwch â'r siop am fwy o fanylion.

Spar - Yna i Chi

Oriau agor:
7.00 y bore
tan
11.00 yr hwyr

Shirin's

BWYTY INDIAIDD

(Bwyta i mewn neu allan)
9 Stryd Fawr, Bethesda
Tel: 01248 209772

Ar agor 7 diwrnod yr wythnos
5.00 - 10.30

Mae Shirin's yn fwyty BYO,
sef bwyty "Dewch a'ch
alcohol eich hunain".

Wi-fi yn rhad ac am ddim"

Jamiau Cartra' ar Werth

Mwyar Duon, Cwsberis
Mwyar Duon ac Afal
Jeli Mwyar ac Afal
Llus a Riwbob, Mefus
Cyrens Duon
Cyrens Cochion
Riwbob a Sunsor
ac eraill

Hefyd pecynnau Nadolig
Elw at elusennau
ac achosion lleol

Ffoniwch Angharad a Neville ar
600853

ANZ Curios

70, Stryd Fawr, Bethesda
(Rhan o siop W.H. Lewis)

Prynu a Gwerthu hen bethau
diddorol a llyfrau ail law

CLIRIO TAI

Ffoniwch Ann ar

07880963062

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

**Awel Deg
Penygroes, Tregarth.**

**Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -**

**Ffoniwch
01248 601164**

Sefydlwyd

1969

**m.hughes
a'i fab**

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

*Cefnogwch ei busnesau lleol
dros y Nadolig*



Cyw yn dod â hwyl a hud y Nadolig i Wynedd!



Mae Cyw a'i ffrindiau yn dod i'r ardal cyn hir fel rhan o daith i ddymuno Nadolig Llawen i blant ar hyd a lled Cymru.

Bydd rhai o gyflwynwyr a chymeriadau hoffus S4C - Huw, Elin, Ben Dant a'i ffrind Cadi, Seren o blaned Asra ac, wrth gwrs, Cyw ei hun - yn dod i Wynedd ar 14, 16 a 17 o Ragfyr ac maen nhw'n eich gwahodd chi i ymuno â nhw yn yr hwyl!

Bydd tair sioe yn cael eu cynnal yn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli, ar 14 o Ragfyr, ac mae'r sioeau yn dechrau am 11.30, 1.45 neu 5.45.

Mae sioeau hefyd yn cael eu cynnal yn Galeri, Caernarfon. Ar 16 o Ragfyr bydd sioeau am 11.00, 1.45, 3.45 a 6.00; ac

ar 17 o Ragfyr bydd sioeau am 11.00, 1.45 a 3.45.

I brynu eich tocyn, dilynwch y ddolen ar wefan s4c.cymru/cyw

Mae'n bosibl archebu tocynnau ar gyfer grwpiau os ydych chi'n dymuno trefnu trip ar gyfer eich ysgol, mudiad meithrin neu grŵp chwarae. Mae croeso mawr i bawb yn Sioe Cyw!

Bydd ffi bwcio o £1.00 ar bob archeb sy'n cael ei wneud dros y ffôn neu ar-lein. Cysylltwch â Galeri ar 01286 685 222 os gewch unrhyw anawsterau.

Mae Sioe Nadolig Cyw yn boblogaidd iawn pob blwyddyn a'r tocynnau yn gwerthu'n gyflym, felly peidiwch ag oedi!

GŴYL FAWR Y DYFFRYN

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

(Dwy sesiwn o fwynhad pur!)

Nos Wener, 17 Tachwedd 2017
6.00^{yh} yn Neuadd Ogwen

Seremoni'r Orsedd,
Cystadlaethau'r Corau
Unawdau Lleisiol ac Offerynnol
a Chystadlaethau i Ysgolion Uwchradd

Sadwrn, 18 Tachwedd 2017
10.00^{yh} yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Gwledd o Gystadlaethau Cynradd:
Canu, Llefaru, Dawns, Celf a Chrefft

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**



GWAWR EDWARDS
(Soprano)



GWYN OWEN
(Trwmped)



Theatr Bryn Terfel, Pontio, Bangor

2 / 12 / 2017 - 7.30 pm

£12.00

www.pontio.co.uk - 01248 382828
neu gan aelodau'r côr



Manylion Cyswllt
Cyngorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Hydref 11 – Ar ôl cael sgwrs a rhoi'r byd yn ei le cawsom gwis diddorol gan Jean. Dilys oedd yn gyfrifol am y baned ac enillwyr y raffl oedd Frances a Gareth. Cyfarfod Hydref 2 – Cafwyd Bingo a phawb yn mwynhau, ennill neu beidio. Myra ac Irene oedd yn gyfrifol am y baned ac roedd Myra wedi coginio platiad o deisennau blasus iawn ar ein cyfer.

Merched y Wawr

Llywydd y noson oedd Linda a chroesawyd Mari, Jennifer a Rhiannon atom am y tro cyntaf y tymor yma. Cafwyd llythyr yn diolch i'r aelodau am gyfrannu at Gasgliad y Werin. Bydd y baneri yn cael eu harddangos yn y Cynulliad ac yn eu cartref parhaol yn y ganolfan yn Aberystwyth.

Ein siaradwriag wadd oedd Eiddwen Roberts o Gaernarfon a chawsom sgwrs ganddi am yr elusen World Vision. Daeth i fodolaeth drwy weledigaeth Bob Pierce, a sefydlodd yr elusen yn 1950 a nod yr elusen yw ceisio sicrhau fod cymunedau â'r gallu i helpu eu hunain, gyda phlant yn ganolbwynt i'r cwbl. Mae'r plant yn y cymunedau hyn yn cael eu noddi a dewisodd Eiddwen blentyn o Zambia, gan iddi hi a'i theulu dreulio wyth mlynedd yno sbel yn ôl. Bu'n noddi bachgen yno ac fe ymwelodd Eiddwen â'r wlad i weld sut mae'r elusen yn helpu plant yno. Roedd hanes y gwaith da a wna'r elusen yn ddiddorol iawn. Diolchodd Helen iddi ar ein rhan.

Linda a Carol oedd yn gyfrifol am y baned.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Y mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn cais i godi 5 tŷ fforddiadwy ar gyfer angen lleol ar dir ger Bro Rhiwen, ynghyd â mynedfeydd cysylltiedig a pharcio. Y mae'r Neuadd, Clwb Rhiwen a'r Clwb Tennis Bwrdd yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor am eu nawdd ariannol.

Newid aelwyd

Pob hwyl i Cathy Owen, Pen Bonc, Cae Glas yn ei chartref newydd ym Methesda. Symudodd y teulu o Lerpwl i gadw siop y pentref yn y 60au ac ar ôl gadael y siop, bu'r teulu'n byw yn Bronnydd. Hyd heddiw, sonnir amdani fel Cathy Bronnydd! Yn yr un modd, croeso i'r pentref i Steve a Sara Jones ac i'r plant, Samuel ac Oliver. Y maent wedi symud o Fethesda i Pen Bonc a phob dymuniad da i chi yn eich cartref newydd. Braf oedd eich gweld yn y noson Calan Gaeaf yn y Neuadd.

Apêl Arddangosfa Ffotograffau o Hanes Rhiwlas/ Pentir/ Carfan

Mae Cynrig a Cadi, mewn cydweithrediad â'r Neuadd Bentref, yn bwriadu cynnal arddangosfa yn olrhain hanes yr ardal drwy ddefnyddio hen ffotograffau a dogfennau perthnasol eraill.

Ewch ati, da chi, i chwilio am ddeunydd ar gyfer yr arddangosfa. Hefyd, beth am gysylltu gyda theulu a ffrindiau sydd bellach yn byw i ffwrdd o'r ardal rhag ofn bod ganddynt hwythau bethau i'w cynnig? Os ydych yn fodlon iddynt ddefnyddio'ch eiddo ar gyfer yr arddangosfa, a fydddech cystal â nodi'n gryno gwybodaeth megis dyddiad ac enwau ar gefn y gwrthrych, o.g.y.dd?

Sylwer ar ddau ddyddiad pwysig:

1. Casglu - Dydd Sadwrn, Ionawr 20, 2018 (11yb - 3yp)

Cyfle i ddod â'r deunyddiau i'r Neuadd er mwyn cael eu sganio ar gyfrifiadur fel bod modd mynd â'r deunyddiau yn ôl adre gyda chwi.

2. Arddangosfa - Dydd Sadwrn, Mawrth 3, 2018 (10yb - 3yp)

Cyfle i weld yr arddangosfa dros baned a sgwrs. Ni fydd tâl mynediad ond gellir, pe dymunir, gyflwyno rhodd er budd y Neuadd.

Calendrau 2018

Mae'r calendrau wedi cyrraedd. Bargen am £4 yr un. Ceisiwch un gan eich dosbarthwr neu drwy gysylltu â mi yn bersonol.

Cydymdeimlo

Yn dawel ym Mhlas Gwilym, Penygroes, bu farw David Norman Jones yn 83 mlwydd oed. Dafydd ydoedd i lawer ond Norman i ni yn Rhiwlas. Cydymdeimlwn â Glyn, ei frawd, 11 Bro Rhiwen a'i ddau gefnder sy'n byw yn y pentref, Elwyn Jones, Fferm Tan y Weirglodd a Bob Thomas, Caeau Gleision. Cafodd Norman ei eni yng Nghareg y Gath yn fab i John Emrys a Blodwen Jones ac yna symud i Bro Rhiwen. Bu farw ei briod, Thelma, wyth mlynedd yn ôl ac roedd y ddau yn byw yn Saron, Llanwnda. Newyddiadurwr ydoedd wrth ei alwedigaeth a bu'n gweithio i'r Cymro a'r Bangor Weekly News. Roedd hefyd yn gerddor da, wedi canu mewn sawl côr a hefyd yn unawdydd. Yn 1973 enillodd y wobr gyntaf ar yr unawd bas. Daeth nifer dda i'r gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor a'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Roedd canu da yno, ac mi fuasai Norman yn falch o hynny. Derbyniwyd rhoddion tuag at Ambiwlans Cymru. Anfonwn ein cofion at Glyn, y teulu a'i ffrindiau.

Deuawdau Rhys Meirion

Mae'r rhaglen yma yn hynod o boblogaidd ac yn yr ail gyfres bu'n canu â Lleuven

Steffan, sy'n byw yn Llydaw ers wyth mlynedd. Mae'n dod nôl i Gymru yn eithaf aml ac yn aros yn y cartref yn Rhiwlas. Yn rhan gyntaf y rhaglen, aeth Rhys i Lydaw ac fe ddysgodd Lleuven gân mewn Llydaweg iddo. Y ddeuawd a ddewiswyd gan Rhys oedd aria gan Handel ond, wedi dod i Gymru, dewis Lleuven oedd Yr Hen Rebel. Braf oedd gweld y ddau yn cerdded ym Moelyci a hithau'n hel atgofion am ei phlentyndod yn y pentref. Cafwyd diweddglô arbennig i'r rhaglen wrth i Rhys Meirion, Lleuven a'r band ganu'r ddeuawd yn Nhwnnel Pendinas / 'Tynal Tywyll'. Yn ddiddorol, Siwan Haf, un arall o blant y pentref, oedd cynhyrchydd y rhaglen.

Ymateb i gais am wybodaeth

Diolch i Ieuan Owens, fferm Glanrhyd am ymateb i'r stori am y milwyr Americanaidd honedig a oedd yn ymarfer yn Rhiwlas yn ystod yr ail Ryfel Byd. Roedd ef o'r farn mai milwyr o Gatrwd Sir Gaer oeddent ac yn y pentref yn ymarfer ym Maes Meddygon gyda thanciau. Mae'n debyg eu bod yn byw mewn hen dŷ yn Waun Pentir.

Enillwyr Noson Calan Gaeaf

Gwisg ffansi: 0 – 3 oed, Oliver, Cara Mererid, Zachary. 4 – 7 oed: Maddie ac Elise.

7 – 11: Cari Elain, Bethan Llewelyn

11+: Will Jones

Pwmpen: Cara Mererid

Diolch i'r rhai a gyfrannodd at y noson ac i'r plant a'r oedolion a ddaeth atom i'r Neuadd.

Noson o Garolau

Y mae Merched y Wawr yn trefnu noson o garolau yn y Neuadd ar **Nos Fawrth, Rhagfyr 5, am 7 o'r gloch** yng nghwmni Seindorf Arian Deiniolen, gydag eitemau gan blant Ysgol Rhiwlas. Y tâl mynediad yw £3 i oedolion ac am ddim i blant. Bydd paned a mins pei ar gael. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at y Neuadd.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, Tachwedd 29

am 7 o'r gloch yn
Festri Capel Carmel.

Bydd sgwrs gan
Dr. John Llywelyn Williams

'Eglwys Llanllechid'
CROESO CYNNES!

Ysgol Llanllechid

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mandy Owen, a’r teulu i gyd, ar golli eu mam yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch ar yr adeg trist yma.

Diolch

Diolch yn fawr i gwmni paent Bradite ar roddi paent yn rhodd i’r ysgol. Diolch arbennig i Adrian Jones am beintio’r siediau i ni. Maent yn werth eu gweld!

Disgo’r Urdd

Aeth criw egnïol a heini i neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen i fwynhau noson o gerddoriaeth yn nisko’r Urdd. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr a’u hwynebau yn llawn cyffro! Diolch i Mr Stephen Jones, Miss Nicola a Ms Lliwen am oruchwyllo ac am ddangos eu symudiadau dawnsio campus!

Noson Ffilm

Ar ddiwedd mis Hydref, roedd ein hysgol wedi ei thrawsnewid yn sinema ac roedd ein noson ffilm yn llwyddiant ysgubol. Roedd cynulleidfa fawr yn gwrandao yn astud ac roedd digon o chwerthin i’w glywed wrth wyllo’r cymeriadau doniol. I goroni’r cwbl, roedd y popcorn a’r diod yn plesio’n fawr! Diolch i Anti Gillian am ei help wrth gael yr holl popcorn blasus i ni!

Diolchgarwch

Un o uchafbwyntiau calendr Ysgol Llanllechid yw’r gwasanaeth Diolchgarwch, ac unwaith eto eleni, roedd yn ddigwyddiad a roddodd bleser mawr i’r gynulleidfa fawr a lenwodd y neuadd. O’r rhai ieuengaf yn y dosbarth Meithrin, i’r disgyblion hynaf yn yr Adran Iau, cafwyd gwledd wirioneddol gan holl ddisgyblion yr ysgol; gwledd o ganu a chyflwyno straeon a’r neges

bwysig o fod yn ddiolchgar am yr hyn sydd gennym. Diolch i’r holl rieni ddaeth i gefnogi ac, wrth gwrs, i’r holl blant am berfformio i safon mor uchel.

Cyngor Ysgol

Mae’r Cyngor Ysgol eisoes wedi bod yn trafod y camau nesaf ar eu rhaglen er mwyn parhau i sicrhau fod llais pob disgybl yn weithredol yn Ysgol Llanllechid. Ar ddiwedd mis Hydref, gwnaeth dau o’r Cyngor, sef Osian a Mia, gwrdd ag aelodau o’r Corff Llywodraethol er mwyn rhannu rhai o’u syniadau ynghyd â dangos eu gwaith thema dros yr hanner tymor diwethaf. Diolch i’r ddau am eu brwdfrydedd, am drafod yn rhugl ac am arddangos gwaith mor ddiddorol.

O, Am Fyd Rhyfeddol!

Ie, y teitl uchod oedd thema Blwyddyn 5 dros yr wythnosau diwethaf. Buont yn dysgu am ryfeddodau Cymru a’r byd drwy ymchwilio a sgwrsio gydag ymwelwyr. I’r perwyl hwn, daeth Ms Gwen Hughes a Mr Ifan Hughes atom. Cafwyd orig ddifyr iawn yng nghwmni’r ddau ac rydym



yn ddiolchgar iawn iddynt am roi o’u hamser ac am ateb cwestiynau aeddfed y disgyblion. Yn y llun uchod, gwelir y plant gyda Mr Ifan Hughes yn gafael yn ei fedalau ar ôl iddo redeg sawl marathon ar hyd a lled y byd. Camp yn wir!

Cacennau Cri o Fri!

Nid oedd Melin Llynnon, Llanddeusant yn malu ar ein hymweliad yno, yn union yr un fath â’r gerdd: “Nid yw’r felin heno’n malu, yn Nhrefin ym mîn y môr...”. Ond, er hyn, daethom yn ôl i Ysgol Llanllechid gyda bagiad o flawd y felin! Penderfynwyd mynd ati i greu cacennau cri, gan ddefnyddio cynhwysion eraill o Gymru megis y menynd a’r wyau. Cafwyd hwyl yn rholio’r toes a thorri’r cacennau yn barod i’w coginio ar badell fawr drom. Wrth gwrs, y rhan orau un oedd eu bwyta, ac roedd gwên fawr ar wyneb pob un o’r plantos. Doedd dim un briwsionyn ar ôl i lygod bach Llanllechid! Diolch i Ms Llinos Parry am drefnu’r daith.

Dosbarth Meithrin

Mae plant y dosbarth Meithrin wedi bod yn brysur yn casglu dail yr Hydref ar Lôn Bach Odro ac yn gwneud gwaith celf bendigedig. Hefyd, maent wedi llwyddo i ddysgu stori hir, hir ar eu cof a llond trol o hwiangerddi! Da iawn chi blantos!



Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Llandygai yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2017

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Bethesda yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2017

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2017

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

Nyth Y Gân

Ar Goll

Bu tynfa aruthrol i'r mynydd
Pan oedd ond yn blentyn bach,
Ei feddwl a'i denodd ef yno
Yn nyddiau ei dyfiant iach.

Fe gaeodd y nos amdano
Un tro ar lechweddau'r cwm,
A phrofodd yno unigrwydd
A theimlo ei hun yn llwm.

Bu chwilio am hir amdano
Hyd erwau'r cerrig a'r brwyn
Arweiniai i sawl cyfeiriad
O'r fan lle caed ambell lwyn.

Ni allai adnabod yr afon,
Ei sŵn oedd mor ddiarth i'w glust,
Na'r coed osodwyd mewn llinell
I greu clawdd terfyn o byst.

Ei wrid oedd fel cochni y rhedyn,
Ei ddwylo mor wyn ac oer,
A'i lygaid yn llawn o leithder
Yn nh'wyllwch y nos ddi-loer.

Rhyw fref o bellter a glywai
Ar brydiau'n y gwacter mawr,
Un arall o'r praid a'i hatebodd
O lecyn mor llwm ei lawr.

Eisteddodd ar graig am beth amser
A chlywodd rhyw leisiau o bell
Yn galw ei enw'n bur uchel
Gan ddod i'w ryddhau o'i gell.

Fe lifodd rhyw falchder rhyfedd
Drwy gorff y bychan di-nam
Pan glosiodd y dorf tuag ato
A'i ddwyn yn ddiogel i'w fam.

Cwmp y Dail

Carped o ddail gwywedig - yn gorwedd
O'u gwared drwy'r goedwig
Yno'n frau dan foelion frig -
Y gwanwyn rydd ail-gynnig.

Waliau newydd yn Yr Ysgwrn
(ar ymweliad diweddar)

Gosodwyd y cerrig yn dwt yn eu tro
A chadarn edrychai y waliau fel clo
Yn gorwedd â'i gilydd y naill wrth y llall
Heb ddangos un gwendid na dangos un gwall.

Saer maen gyda'r gorau yn wir oedd yr un
Fu yno mor amlwg â'i forthwyl a'i gŷn
Yn creu yno'n gadarn, Gymreigaidd ei nawws
Fel na fyddai'n bosib i fynd ar ei draws.

O edrych ar grefftwaith y waliau o'n blaen
A sylwi yn fanwl ar natur y maen,
Nid cerrig o'r Ysgwrn oedd rhain 'nôl eu lliw
Ond math arall melyn ddaeth yno'n un criw.

Cyn hir fe ddaw'r cloddiau i weddu â'r lle
A'r cen a dyf drostynt na ŵyr neb o ble;
Atgofion fydd gennym o gartref Hedd Wyn
Fu'n fardd ac yn fugail ar lechwedd y bryn.

Dafydd Morris



Dydd Sadwrn 25 Tachwedd

Noson o Gerddoriaeth a Bwyd Hudolus
gyda Gwyneth Glyn, Twm Morys a
Madach

Adloniant cerddorol gan Gwyneth
Glyn a Twm Morys a dau gwrs o luniaeth
madarchol o Ardd Fadarch Eryri

Dydd Sadwrn 09 Rhagfyr

Gig 9BACH, Yucatan & Martin Daws
Tocynnau yn £14 o flaen llaw a
£15 ar y drŵs.

Dydd Mercher 27 Rhagfyr

Gig Nadolig BAND PRES LLAREGGUB,
OMALOMA, FFRACAS
Mae nhw'n ôl! Ymunwch â ni
2 ddiwrnod ar ôl y Dolig am barti
gwerthchweil.

Siân Gwenllian, AC
Cyng. Rheinallt Puw
CYMHORTHFA
Canolfan Cefnfaes
Bethesda
Dydd Sadwrn 25.11.17
10.30yb – 12.00yp

Dewch i drafod unrhyw fater sy'n
bwysig i chi gyda'ch Aelod Cynulliad
a'ch Cyngorydd Sir lleol
Nid oes angen gwneud apwyntiad.



Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

a’r cynhesrwydd a gafwyd yn dilyn y gwasanaeth. Diolch i bawb.

Diolch

Dymunai Eifion, Gwyn Ellis, Sian a Paul (Tŷ Mwyn) estyn gair o wir ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad a haelioni ar achlysur trist o golli Ann yn ddiweddar. Hoffem estyn gair o ddiolch hefyd i’r nyrsys cymunedol am y gofal dwys a roddwyd i Ann, ac i’r teulu cyfan mewn amser anodd iawn. Diolch i Mr Dafydd Coetmor Williams am ymgymryd â’r gwasanaeth angladd. Diolchwn hefyd fel teulu i Mr Steven Jones am ei wasanaeth teimladwy a thrylwyr. Derbyniwyd dros £1,000 mewn rhoddion er cof am Ann, a drosglwyddwyd i achos Tŷ Gobaith, a oedd mor agos at galon Ann.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod o’r clwb bnawn Mercher, Hydref 25. Croesawodd y Llywydd bawb i’r clwb. Roeddem yn cofio am Margaret Roberts sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd. Cafwyd llythyr i ddiolch am ein cyfraniad o £20 at y Rotary. Bu Mr Ted Rowlands yn siarad yn y clwb fis Medi am y Rotary a’u gwaith. Yna croesawodd y Llywydd Sarah Woodcock, sydd yn ffisiotherapydd. Mae’n gweithio yn ysbyty Eryri â’r henoed ac yn arbenigo mewn atal codymau.

Cawsom bnawn braf iawn yn ei chwmni yn gwneud rhai o’r ymarferiadau. Gwnaethpwyd y te gan Glenys Roberts a Vera. Rhoddwyd y raffl gan Margaret Rees Williams ac fe’i enillwyd gan Vera. Bydd y cyfarfod nesaf ar Tachwedd 22.

Diolch

Hoffai Ann Tugwell ddiolch am bob caredigrwydd ar ôl iddi gael llawdriniaeth ar ei phen-glin.

Mae Jenna a David Allsup yn anfon eu diolch i bawb am yr holl anrhegion a’r dymuniadau da ar enedigaeth eu merch fach, Beti Henri.

Penblwyddi

Penblwydd hapus iawn i Elsi Mererid, Llwyn Bedw, yn 4 oed ar Tachwedd 9 gan Mam, Dad a’r teulu i gyd.

Pob dymuniad da hefyd iti, Elliot Tugwell, yn dathlu dy benblwydd yn ddeunaw oed ar Tachwedd 5.

Rhodd i’r Llais

Diolch yn fawr am y rhodd o £10 i’r Llais er cof am Raymond Tugwell, flwyddyn wedi ei golli. Er bod amser yn mynd heibio, mae’r atgofion yn parhau.

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau
Tachwedd 19: Parchg. John Lewis Jones
Tachwedd 26: Gweinidog

Ganrif i fis hwn ER COF

NORMAN ADAIR ROBERTS

Milwr Cyffredin 265672 Byddin
Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig
A fu farw 6 – 11 – 1917
Yn 25 ml. oed
Mewn coffadwriaeth Beersheba, Israel

WILLIAM HENRY WILLIAMS

Is-lifftenant Byddin Frenhinol
Ffiwsilwyr Cymreig
A fu farw 6 – 11 – 1917
Yn 23 ml. oed
Mewn coffadwriaeth Beersheba, Israel

L. C. GILLETT

Milwr Cyffredin 205837
(Buckinghamshire Hussars)
A fu farw 21 – 11 – 1917
Yn 35 ml. oed
Mewn coffadwriaeth Jerusalem, Israel

WILLIAM HAMILTON WILLIAMS

Milwr Cyffredin 25424 (South Wales
Borderers)
A fu farw 21 – 11 – 1917
Yn 19 ml. oed
Mewn coffadwriaeth
Cambrai, louveral, Ffrainc

J. R. JONES

Milwr Cyffredin 266589 Byddin
Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig
A fu farw 24 – 11 – 1917
Mewn coffadwriaeth Damascus, Syria

THOMAS THOMAS

Milwr Cyffredin 63595 Byddin
Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig
A fu farw 25 – 11 – 1917
Yn 32 ml. oed
Mewn coffadwriaeth
Tyne Cot, Gwlad Belg

ELSWORTH COLLISTER HUGHES

Is-Gorpral Corfflu Gynnau Peiriant
(Troedfilwyr) 70391
A fu farw 30 – 11 – 1917
Cambrai, louveral, Ffrainc

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon
i’r Llais)

Marwolaeth

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs. Glenys Owen, 22 Bron Bethel, Rachub, ar Medi 23, yn dawel ond yn annisgwyl, ar Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd, ar ôl blynyddoedd o waeledd blin a phoenus, yn 73 mlwydd oed. Unig ferch y diweddar John Owen Jones a Margaret Jones, 36 Maes Coetmor gynt. Chwaer annwyl Bernard a chwaer-yng-nghyfraith arbennig Buddug a chyfnither hoffus iawn.

Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Annibynnol Carmel, Rachub, ac yn dilyn ym Mynwent Coetmor, ddydd Mawrth, Hydref 3.

Diolchiadau

Dymuna Bernard, Buddug a’r teulu ddiolch yn ddifffuant i holl gymdogion, cyfeillion a ffrindiau arbennig am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar yr achlysur trist o golli ei annwyl chwaer, Glenys. Roedd derbyn y nifer fawr o gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn yn gysur mawr iddynt. Diolch i bawb a gyflwynodd roddion er cof am Glenys tuag at Gartref Preswyl Plas Ogwen, Bethesda, a Hosbis Tŷ Gobaith, Conwy.

Diolch arbennig i Mandy a holl staff Plas Ogwen am eu gofal tyner ohoni dros gyfnod o bedair blynedd, o dro i dro. Heb anghofio meddygon, staff a gweinyddesau ardal Meddygfa’r Hen Orsaf ym Methesda am eu gofal diflino. Diolch i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Gwasanaeth Ambiwylans am eu cymorth parod bob amser.

Maent hefyd yn gwerthfawrogi gwaith yr holl feddygon a’r nyrsus yn ysbytai Gwynedd, Glan Clwyd ac Eryri, ac yn ddiweddar, yr ymgynghorwyr orthopaedig ac anaesthetig, a gweinyddesau Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd am eu gofal arbennig o Glenys yn ystod ei dyddiau olaf.

Dymuna’r teulu ddiolch yn gynnes iawn i’r ymgymrwyr, Gareth Williams a Gwenan, Crud yr Awel, Ffordd Garneddwen, am eu hagosatrwydd a’r trefniadau trylwyr, parchus ac urddasol. Hefyd i’r Parchedigion Olaf Davies, Huw John Hughes, Dafydd Coetmor Williams a John Gwilym Jones, ac i’r organyddes, Mrs. Helen Williams am eu gwasanaeth ddydd yr angladd.

Diolch i swyddogion Eglwys Annibynnol Carmel, Rachub am bob cymorth, ac i Karen a staff Caffi Coed y Brenin, Bethesda, am y lluniaeth ardderchog

Rhagfyr 3: Gweinidog (Cymun)
Rhagfyr 10: Oedfa
Rhagfyr 17: Oedfa Nadolig (4.00yp.)
Oedfaon am 5yh oni nodir yn wahanol.
Ysgol Sul am 10.30yb
Clwb Dwylo Pysur – nos Wener am 6.30yh
Te Bach yn yr Ysgoldy ar ddydd Llun,
Tachwedd 20, am 2.30 – 4.00yp
Croeso cynnes i bawb ymuno.

Anfonwn ein cofion at bawb sy’n sâl gartref. Hefyd cydymdeimlwn â dau deulu a fu mewn profedigaeth, sef Mrs. Arfona Edwards, Maes y Garnedd (colli ei wŷr, Matthew) a Mr. Gareth Hughes a’r teulu, Rachub (colli brawd ac ewythr).

Yr Ysgol Sul

Cawsom wasanaeth Diolchgarwch hwyllog a bendithiol ar nos Sul, Hydref 8, yng nghwmni’r plant a’r bobl ifanc. Roedd pob un ohonynt yn ardderchog wrth eu gwaith, fel y maen nhw bob amser. Daeth cynulleidfa luosog i gyd-addoli a rhoi diolch, a chafwyd casgliad o £155.00 tuag at y Genhadaeth Fyd-Eang.

Y Chwiorydd

Gosodwyd ffenestri newydd yn y festri yn ystod yr haf, ac fe dalwyd am y gwaith gydag arian o Gronfa’r Chwiorydd. Mae’r ffenestri’n ddeniadol iawn ac wedi gwneud awyrgylch y festri yn glyd a chynnes. Diolch i Mr. Ron Jones a’r hogiau am eu gwaith yn eu gosod. Cawsom fleindiau ar y ffenestri hefyd, yn rhodd gan aelodau Clwb Hanes Rachub, Caellwngrydd a Llanllechid, sydd yn cynnal eu cyfarfodydd misol yn y festri. Mi fydd y bleindiau yn hwylus iawn pan fydd eisiau dangos lluniau ar y sgrîn yn y Clwb. Diolch yn fawr iawn i aelodau’r Clwb am eu caredigrwydd.

Erbyn hyn mae’r Te Bach misol wedi ail-ddechrau i gymdeithasu a chodir arian tuag at Gronfa’r Chwiorydd. Mi wnaeth Mrs. Arfona Edwards wau planced hyfryd a chodwyd £100.00 drwy werthu Sgwâr Cant. Diolch i Arfona am ei gwaith caled. Mae hi



Dyma lun o Mrs. Arfona Edwards gyda rhai o’r ffyddloniaid yn y Te Bach ym mis Hydref.

wedi gwau ymhell dros 100 o flancedi erbyn hyn, ers ddechrau Clwb Gwau Carmel rhyw ugain mlynedd yn ôl. Mae merched y Clwb yn brysur ar hyn o bryd yn gwau capiau a sgarffiau i’w rhoi ym mocsys Nadolig y Plentyn. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni yn y Te Bach neu’r Clwb Gwau.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Roedd maint y gynulleidfa yn adrodd cyfrolau am boblogrwydd ein siaradwr gwadd yng nghyfarfod Mis Hydref. Daeth y Dr. J. Elwyn Hughes draw i ysgoldy Carmel gyda chyfres arall o luniau diddorol ac anarferol o’r ardal leol. Gwelwyd lluniau rhai o addoldai’r ardal, rhai nad ydynt yn bodoli bellach, yn ogystal â siopau amrywiol oedd yn adlewyrchu prysurdeb y gymdeithas ar y pryd. Wyddoch chi mai siop ddillad oedd Pant yr Ardd ar un adeg? Wyddoch chi ble mae Eglwys Glan Rhyd Idwal? Wyddoch chi am fodolaeth siop ‘Cambrian Music Stores’ yn Stryd Fawr Bethesda, - siop a oedd yn gwerthu deunyddiau cerddorol i bob rhan o Gymru, ond a losgodd yn ulw yn y 1930au? Diolch yn fawr unwaith eto am gyfarfod difyr tu hwnt. Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Tachwedd 29, pan fydd y Dr. John Llywelyn Williams yn sgwrsio am ‘Eglwys Llanllechid’.



Dyma lun o’r plant lleiaf yn canu “Tu ôl i’r dorth mae’r blawd”.

Llythyr

Annwyl Olygydd,
Ymhellach i’r llythyr diddorol gan John Ffrancon o Abergele a’r llun o Gôr y Penrhyn yn rhifyn mis Hydref, roeddwn yn falch o weld fy nhad, John Owen (Jack) Pritchard o Fynydd Llandygái yng nghanol yr ail res o’r top, gyda’i frawd Twm ar ei ochr chwith – dau faswr gwych.

Yr oedd Twm yn dad i Evelyn Roberts o Fraichmelyn a’r diweddar Raymond Pritchard, ei hun yn gyn-aelod o’r Côr.

Yr oedd y ddau yn aelodau o’r Côr yn 1935 pan y cafodd ei ail-sefydlu ac yr oedd fy nhad yn perthyn iddo nes dechrau’r 1960au, pan adawodd i ymuno ag Wythawd Tryfan dan arweiniad Cledwyn Jones, Bangor.

Fy atgof gyntaf o’r Côr ydi teithio o Fethesda i Lundain, llond dwy fws Purple Motors, gyda’r oedd Côr yn cymeryd rhan mewn cyngerdd yn y Royal Festival Hall yn 1952. Wyth oed oeddwn i ar y pryd ac yn anffodus, nid oes gennyf gof o gwbl o’r cyngerdd... ond dwi yn cofio bod y siwrna yno ac yn ôl wedi cymryd oesoedd!

Dwi hefyd yn cofio mynd efo ’Nhad ambell tro i gyngherddau lleol ac eistedd yng nghefn y llwyfan i wrando ar y canu. Mynd hefyd i ymarferion yn Ysgol Penybryn, os cofaf yn iawn. Ffrancon Thomas oedd yr arweinydd bryd hynny.

Cyn iddo farw yn 1974, ceisiodd fy nhad sawl gwaith fy mherswadio i ymuno â’r Côr. Dwi’n difaru hyd heddiw fy mod wedi disgwyl tan 1988 cyn gwneud.

Fel John Ffrancon, edrychaf ymlaen at fwy o atgofion gan ddarllenwyr y Llais.

Cofion,
Maldwyn Pritchard
Hendyrnpeg, Tregarth

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



25 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur

25 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin – NSPCC

2018

03 Mawrth – Cefnfaes – Plaid Cymru.

24 Mawrth – Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

14 Ebrill – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

21 Ebrill – Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem.

12 Mai – Cefnfaes - Cymorth Cristnogol.

29 Medi – Cefnfaes – Plaid Cymru.

27 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarw ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
TACHWEDD 28
RHAGFYR 12 AC 19
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Y CABAN
Cynhelir Cyfarfod Blyneddol y Caban yn y Caban
Nos Fercher, Tachwedd 29
am 7.00 yr hwyr.
Croeso cynnes i bawb!

CAFFI COED Y BRENIN

BORE COFFI NSPCC
SADWRN 25 TACHWEDD
10.00 – 12.00

Neuadd Ogwen

Ffair Nadolig
Y Blaid Lafur

Siôn Corn : Stondin Gacennau
Sadwrn 25 Tachwedd
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Croeso Cynnes i Bawb

Lleoliad: Cefnfaes, Bethesda
7.15pm - 9.30pm

Rhaglen Tachwedd - Rhagfyr 2017
15 Tachwedd: Lluniau o arddangosfa Salon Llundain
29 Tachwedd: Cyflwyniad "Projectau" – Geraint Thomas (Panorama, Caernarfon)
13 Rhagfyr: Noson Aelodau

Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau:

www.dyffrynogwencamera.co.uk

NEUADD OGWEN

ATGOFION AR GÂN

Sesiynnau cerddorol i bobl hŷn
Dydd Gwener 24 Tachwedd
Dydd Gwener, 8 Rhagfyr
10.30 – 11.30
Paned a chân yn ddi-dâl
(Canolfan Gerdd William Mathias)

Carmel Llanllechid
Te Bach
Pnawn Llun. 20 Tachwedd
2.30 – 4.00
Croeso i bawb!

Capel Bethlehem Talybont

FFAIR NADOLIG
yn y Festri
Nos Fawrth, 5 Rhagfyr
am 6.30yh
Mynediad: £1.00



Cyfarchion Nadolig
Ni fydd Mrs. Glenys W. Lloyd Jones, 24 Glan Ffrydilas, yn anfon cardiau Nadolig na Blwyddyn Newydd eleni, ond mae'n dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w chymdogion a'i ffrindiau i gyd.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
Nos Lun, 11 Rhagfyr
am 7.00 yh
yn Festri Capel Jerusalem
Gwen Gruffudd
Testun:Evan Parry,
y llyfryddwr gwyh o Fethesda
£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"

Cystadleuaeth Addurno Ffenest Siop Nadolig 2017
Gwobr ariannol a Tharian i'w dal am flwyddyn



GWASANAETH CAROLAU
Grŵp Eryri o Sefydliad y Merched yn Festri Jerusalem
Nos Wener, 1 Rhagfyr
am 7.00yh
Croeso cynnes i bawb

Ysgol Dyffryn Ogwen

Noson Agored

Cynhaliwyd Noson Agored flynyddol yr ysgol nos Fawrth, Hydref 17, i rieni disgyblion ym mlynnyddoedd 5 a 6. Yr oedd yn braf iawn gweld yr ysgol yn llawn o ddarpar rieni a disgyblion o ysgolion Bodfeurig, Llanllechid, Penybryn, Rhiwlas, Tregarth a Llandygái. Yr oedd canmoliaeth fawr i'r noson gan y rhieni a fu'n bresennol a gobeithir yn fawr y bydd pob disgybl sy'n byw yn y dalgylch yn dod i Ysgol Dyffryn Ogwen.

Rhyd Ddu

Bu disgyblion Blwyddyn 7 ar ddeuddydd o Gwrs Croeso – y diwrnod cyntaf yn aros yn Rhyd Ddu ac yn ddiwrnod caled o gerdded yr Aran a'r ail yn ddiwrnod o adeiladu lloches ym Mharc Meurig, gyda'r pwyslais ar weithio fel tîm. Roedd myfyrwyr Blwyddyn 12 hefyd yn brysur yn cefnogi'r disgyblion ac yn coginio ar eu cyfer, a bydd y profiad yn cyfrannu at weithgareddau'r Fagloriaeth iddynt.

Wythnos Sgiliau

Gan fod Blwyddyn 7 yn Rhyd Ddu, manteisiwyd ar y cyfle i roi profiadau gwahanol i weddill yr ysgol, gan gynnwys gweithgareddau Gwers Fwyaf y Byd (codi ymwybyddiaeth o nodau byd-eang y Cenhedloedd Unedig - gwarchod yr amgylchedd, milltiroedd bwyd, maeth, pecynnu cynaliadwy). Cynhaliwyd gweithgareddau gwrth-fwlio, Masnach Deg a gweithgareddau perthnasoedd diogel yn seiliedig ar y ddrama 'Mirror, Mirror'.

Bu'r disgyblion hŷn yn gweithio ar eu tasgau Her y Gymuned, gan gynnwys hyfforddiant chwaraeon i ddisgyblion iau a chymryd

rhan mewn gweithgareddau yn seiliedig ar fywyd a gwaith Hedd Wyn yn ogystal â chynnal diwrnod Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Gelli Gyffwrdd a gweithgareddau yn yr ysgol).

Gweithdy Byd Ariannol

Bu Mr Tim Goodwin o gwmni gwerthu tai Williams & Goodwin yma yn ddiweddar i gynnal gweithdy i ddisgyblion Blwyddyn 10. Bu i'r disgyblion ddysgu sut mae mynd ati i brynu tŷ, cael gwybodaeth am forgeisi, beth yw rôl cyfreithwyr yn y broses a sut i fynd ati i chwilota am dy ar y we.

Blwyddyn 13

Er mwyn ein paratoi ar gyfer Her Menter a Chyflogadwyedd Bagloriaeth Cymru, daeth Geraint Hughes o fusnes Creision Jones a Menna Jones o Antur Waunfawr atom i roi gweithdy ar sut i sefydlu busnes. Cawsom sesiwn yn sôn am eu profiadau a dysgom am y 5P: 'People, Promotion, Price, Place a Product', sef agweddau y dylid eu hystyried wrth gychwyn menter. Roeddem yn ddiolchgar iawn am y cyngor a'r cyfle i'w holi, ac rydym yn edrych ymlaen at gael dechrau'r broses fusnes ein hunain! *Ffion Roberts, Blwyddyn 13*

Ymwelydd – Prifysgol Cymru

Mae Blwyddyn 13 bellach ar ganol ymgeisio am lefydd yn y prifysgolion ar gyfer mis Medi nesaf. Daeth Rebecca Bowen

o Brifysgol De Cymru i roi cyflwyniad a gweithdy ar sut i lunio datganiadau personol. Roedd ei chyflwyniad yn un gwerth chweil a rhoddodd lawer o gymorth wrth i ni fynd ati i ymhelaethu ac ehangu ein dealltwriaeth o'r hyn sydd angen yn y datganiadau. Diolchwn iddi am ei hamser! *Sophie Williams, Blwyddyn 13*

Cwrs Arweinwyr Chwaraeon – Llysgenhadon Ifanc Gogledd Cymru

Yn ddiweddar, bu Llysgenhadon Chwaraeon yr ysgol ar gwrs Arweinwyr Chwaraeon Lefel 2 a oedd yn cael ei gynnal gan yr Urdd.

Cynrychioli Cymru

Mae Tomos Roberts, Blwyddyn 7 yn rhan o dîm Golff Cymru dan 15 ac ar Hydref 7, enillodd

y tîm yn erbyn tîm Yr Iwerddon yng ngwesty'r Celtic Manor. Bu i Tomos ennill pob gêm yno! Handicap – 'scratch'. Da iawn chdi, Tomos.

Gweithdy Treiathlon

Yn ddiweddar, bu Boe-Celyn Jones mewn gweithdy triathlon a oedd yn cael ei gynnal gan Rhian Roxbrugh, triathletwraig broffesiynol. Nid oedd yn ddigwyddiad cystadleuol y tro hwn ond cafodd gyfle i ddysgu a rhoi cynnig ar gwblhau triathlon. Yn ystod y bore yr oedd gwahanol ymarferion, dadansoddi technegau a thrafod hyfforddi ac yn y prynhawn cafodd pawb gyfle i roi cynnig ar gwblhau tri gweithgaredd yn olynol. Da iawn ti, Boe-Celyn ar fod yr unig ferch o'r ysgol i fynychu. Triathletwraig y dyfodol!



Criw Caiacio Dyffryn Ogwen – Byw'n Iach Gwynedd
Bu criw o'r ysgol yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth caiacio yn ddiweddar yn Llanberis. Cafodd pawb ddiwrnod llawn hwyl!

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

Teulu newydd i Faes y Groes
Croeso cynnes i Blas Maes y Groes i deulu hwyliog iawn – y teulu Harrison-McDougal o Fanceinion.

Mae Christopher a Dawn yn gweithio’n galed iawn i adfer y tŷ i’w harddwch gwreiddiol; tasg enfawr, ond gwaith sydd, yn amlwg, wrth fodd eu calonau.

Mae’r tri phlentyn hynaf wedi aros ym Manceinion ond mae Paige, Callum, Darcey, Phoebe a’i hefaill, Niamh, Freya, Romilly a Verity yn brysur yn ymgartrefu yn Nhalybont.

Maent yn awyddus iawn i ddod i adnabod yr ardal a’i thrigolion, ac i ddysgu mwy am ein hanes a’n hiaith. Mae’r dair eneth ieuengaf, gydag annogaeth brwd eu rhieni, yn dysgu Cymraeg yn gyflym yn Ysgol Llandygái. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

Babis newydd
Croeso mawr i Teddy John Lloyd, a anwyd ar Medi 26 i Catrin a Chester, 40 Bro Emrys. Mae’n frawd bach i Hattie, yn nai i Huw ac yn ŵyr i Alison a Gareth. Mae nain a taid wrth eu bodd yn helpu efo’r plantos, a Catrin a Chester yn falch o’u cael wrth law. Pob bendith arnynt i gyd!

Llongyfarchiadau hefyd i Sandra a Keith, 13 Dolhelyg, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ar 30 Hydref, ganwyd hogyn bach, Malakai, i’w mab, Daniel, a’i gymar, Melissa. Mae Callum, ei frawd mawr, Yncl Dylan ac Anti Leanne wedi gwirioni’n lân.

Yn yr ysbyty
Mae Mrs Rose Thomas, 16 Dolhelyg, yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd a Mrs Rhodwen Jones, 2 Cae Bach, newydd dreulio ychydig o ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ddymuniadau gorau am

adferiad iechyd i’r ddwy ohonynt.

Eglwys St. Cross
Croeso i aelodau Eglwys St. Tegai i gyd-addoli gyda ni, gan fod y tywydd garw wedi achosi difrod i do Eglwys Llandygái.

Penblwydd arbennig
Mae Dorothy Hanks, 17 Cae Gwigin, wedi dathlu penblwydd arbennig ar ddechrau’r mis. Dymunwn iechyd gwell iti, Dorothy, a chyfle i barhau efo’r gwaith gwirfoddol ardderchog rwyf ti’n ei wneud efo’r Deillion.

Penblwydd hapus hefyd i Sue Mathews, sydd hefyd yn dathlu penblwydd arbennig y mis hwn.

Cynheli Bore Coffi Nadolig yn Ysgoldy Maesygroes ar dydd Mawrth 5 Rhagfyr 10.30 - 12.00.

Capel Bethlehem Oedfaon
Tachwedd 19: Parchg. John Lewis Jones; Tachwedd 26: Gweinidog; Rhagfyr 3: Parchg. Cledwyn Williams; Rhagfyr 10: Gweinidog; Rhagfyr 17: Oedfa Nadolig.
Oedfaon am 2 o’r gloch.
Croeso cynnes i bawb.

Bwrlwm
Roedd yna syrpreis i Neville yng nghyfarfod olaf yr Hydref, gan fod aelodau’r Bwrlwm wedi trefnu cacen enfawr i ddathlu ei benblwydd yn 80 oed – a hynny wythnos yn gynnar! Mae Neville yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cyfarchion a’u dymuniadau da iddo.

Bore Coffi Logan
Diolch i bawb a gefnogodd ein Noson Goffi ar Hydref 25 drwy eu rhoddion hael â’u presenoldeb. Codwyd y swm anrhydedus o £650.00 tuag at Gronfa Logan a phawb yn dymuno’n dda iddo.

Yr Ysgol Sul
Diolch i’r plant am eu rhan yn yr Oedfa Ddiolchgarwch ar dydd Sul, Hydref 22, ac i’w teuluoedd a chyfeillion am eu cefnogaeth. Diolch i



Barbara am drefnu’r oedfa, i’r athrawon Ysgol Sul am helpu, ac i’n gweinidog, Y Parchedig John Pritchard, a Mrs. Susan Williams am eu cyfraniadau hwythau hefyd. Cafwyd cyfle i’r gynulleidfa ddod at ei gilydd i gymdeithasu dros baned yn y festri ar y diwedd. Diolch i’r rhai fu’n paratoi ac yn gweini.

Yn y llun gwelir y plant yn dangos diddordeb wrth i Anti Angharad wneud torth o fara ar gyfer yr Oedfa

Ddiolchgarwch. “Tu ôl i’r dorth mae’r blawd ...”

Banc Bwyd
Cafwyd ymateb ardderchog i’n hapêl am nwyddau i’r Banc Bwyd dros y Diolchgarwch. Diolch i’r holl gyfranwyr!

Ffair Nadolig
Cynhelir ein Ffair Nadolig flynyddol yn y festri ar nos Fawrth, Rhagfyr 5 am 6.30yh. Cofiwch amdani! Byddwn yn falch iawn o’ch gweld.

Plaid Cymru - Cangen Dyffryn Ogwen

Bu mis Hydref yn fis prysur iawn gyda dau ddigwyddiad yn ein dyddiadur. Ar fore Sadwrn Hydref 7, cynhaliwyd bore coffi yng Nghanolan Cefnfaes. Mae boreau coffi ar y Sadyrnau yn bwysig iawn i nifer o bobl yn ein hardal gan ei fod yn gyfle i gymdeithasu, sgwrsio a chael cwmni a mawr yw’r hwyl a’r tynnu coes wrth dynnu raffl. Ffordd hwyliog o gychwyn fore Sadwrn a phenwythnos. Yr un oedd yr hwyl yn ein bore coffi a da oedd gweld pawb a diolch am ein cefnogi.

Ar nos Wener Hydref 13, cynhaliwyd noson yng nhwmni Y Welsh

Whisperer yn y Clwb Criced a Bowllo. Daeth criw da at ei gilydd i fwynhau noson o adloniant unigryw Y Welsh Whisperer. Roedd digon o ganu, chwerthin a dawnsio. Mae Andrew, sef Y Welsh Whisperer yn brysur eithriadol wrth deithio ar hyd a lled Cymru pob penwythnos ac mae wedi anfarwoli lorïau Mansel Davies!

Hoffwn fel cangen longyfarch ein trysorydd, Neville Hughes, ar ddathlu penblwydd arbennig a dymuno’n dda iddo a diolch iddo am ei holl waith a’i barodrwydd pob amser.

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Mynd yr ail filltir (7)
- 5 Colli arni’n llwyr, gwylltio’n gacwn (*tafodieithol*) (5)
- 8 “----- genhinen yn dy gap”, cyngor i Gymro gan Eifion Wyn (5)
- 9 Swnio fel merch glyfar, ond i’r gwrthwyneb yn hollol (7)
- 10 Mae o’n olau i helpu’r cynaeafwyr i gasglu’r cnwd ymhell i’r nos (5,4)
- 12 Gŵr (3)
- 13 “Pan welaf waith dy fysedd, Wrth edrych ---‘- --: Yr haul a’r sêr a’r lleuad, A roddaist yn eu lle.” (*emyn*) (4,2)
- 14 Gesio neu amcanu (6)
- 17 Ffedog baban ! (3)
- 18 Cynrychiolydd swyddogol un wlad mewn gwlad arall (9)
- 20 Timau achub ar y môr, “----- y Glannau” (7)
- 21 Mewn gosteg i dasgu dŵr y mae’r llyn ym Meirionnydd (5)
- 23 ‘Bwyd cwningen’ medd rhai, ‘bwyd iach’ medd eraill (5)
- 24 Dadwisgo’n llwyr (7)

I LAWR

- 1 Ynghanol terfysg allanol mae’r planhigion pigog (5)
- 2 Bloedd i gael sylw (3)
- 3 Y mymryn lleiaf o olau (7)
- 4 Rhagor a mwy (6)
- 5 Fel dau ohonof yn mynd i’r ddinas yn Florida (5)
- 6 Yn union fel 10 Ar Draws (5,4)
- 7 Yng nghyrff eglwysi neu gapeli efallai (7)
- 11 Rhan bwysicaf y drafodaeth neu’r digwyddiad (9)
- 13 Nid yn bendant o ddigwydd, ond mwy neu lai (7)
- 15 Gwneud yn fwy mewn amser (7)
- 16 “----- y Nos” un o ganeuon enwocaf Edward H. Dafis (6)

1		2		3		4		5		6		7
8						9						
10		11								12		
13								14	15			
						16						
17				18								19
20								21		22		
23						24						

- 18 Mae llaw E sylt bach yn mynd drwyddi (5)
- 19 ‘Tynnu’r to i lawr’, yn llythrennol (5)
- 22 Rhwydwaith (3)

ATEBION CROESAIR HYDREF 2017

- AR DRAWS 1 Sgwar, 4 Epaod, 10 Ymyrryd, 11 Gweff, 12 Croes, 13 Eogiaid, 15 Gafr, 17 Bachog, 19 Erydu, 22 Ofni, 25 Tosturi, 27 Chwedl, 29 Ysgub, 30 Echrydus, 31 Poeni, 32 Astell

- I LAWR 2 Gwyro, 3 Afrosgo, 5 Pigog, 6 Ochenaid, 7 Llyncu, 8 Adref, 9 Cledr, 14 Oren, 16 Agor, 18 Amsugno, 20 Richards, 21 Stryd, 23 Fideo, 24 Clust, 26 Unben, 28 Echdoe

Dyma’r camgymeriadau a gafwyd y tro hwn, ‘Ysten’ yn lle ‘Astell’; ‘Epaon’ a ‘Dynol’ yn lle ‘Epaod’; ac ‘Ysgog’ yn lle’r ateb cywir ‘Pigog’.

Mae’r canlynol i gyd i’w canmol am anfon atebion hollol gywir : Dilys Parry, Rhiwlas; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Myrddin Williams, Capel Uchaf, Clynnog; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Jean Hughes, Talybont; Doris Shaw, Bangor; Myra a Gwilym Evans, Niwbwrch; Gareth William Jones, Bow Street; Angharad Watkins a Huw Pritchard, Caerdydd; Rita Bullock, Bryn a Gwen Evans, Gaynor Elis-Williams, Catherine Aran, Laura a Marian Arman, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch.

Yr un a ddaeth o’r het yn fuddugol oedd ymgais Dilys Wyn Griffith, Sŵn yr Afon, 3 Tower Way, Abergele, Sir Conwy LL22 7AY. Llongyfarchiadau i chi.

Atebion erbyn 1 Rhagfyr, 2017 i ‘Croesair Tachwedd’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Atebion erbyn 1 Rhagfyr, 2017 i ‘Croesair Tachwedd’
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

.....

Cyfeiriad

.....

.....

.....

Chwaraeon

Cynrychioli ei Wlad

Mae Geraint Roberts wedi ei ddewis yn aelod o Dîm Pysgota Plu Cymru i gystadlu yn Llyn Brenig y flwyddyn nesaf. Dyma'r ail gap i Geraint ei ennill gan iddo gynrychioli ei wlad yn 2016 yn Llyn Llandegfedd ger Pontypŵl.

Meddai Geraint am y profiad hwnnw, “Roedd hynny’n fraith imi, a chael cerdded i lawr at y llyn cyn y gystadleuaeth efo baner y Ddraig Goch a chystadlu’n erbyn yr Alban, Iwerddon a Lloegr.

“Roedd ysbryd arbennig yn perthyn i’r achlysur – a phrofiad dymunol oedd ymuno ag aelodau timau’r pedair gwlad am wythnos cyn y gystadleuaeth i ymarfer, a dod i adnabod pobl wahanol, a chael hwyl a thynnu coes ein gilydd.”

Cafodd Geraint ei fagu yn y Gerlan, a dechreuodd bysgota yn naw oed yn yr afonydd cyfagos, sef Ffrydlas, Llafar a’r Gaseg. Pan oedd yn hŷn, dechreuodd grwydro ymhellach, a chael pleser yn pysgota Ffynnon Lloer, Llyn Idwal, Llyn Bochlyd a Llyn Ogwen efo Clwb Pysgota Dyffryn Ogwen. Mae’n hoff o gawio’i blu ei hun ers y cychwyn.

Meddai: “Pan glywais fod fy ffrind,

Stephen Roberts, wedi cael lle yn Nhîm Pysgota Plu Cymru, fe benderfynais ymgeisio yn y treialon, sef y pedair cystadleuaeth ragbrofol, gan obeithio llwyddo, a chael lle yn nhîm Cymru y flwyddyn wedyn.”

Bydd Geraint yn brysur dros y gaeaf yn cawio plu ar gyfer y gystadleuaeth ac yn mynychu cyfarfodydd efo’i gyd-aelodau wrth iddynt baratoi ar gyfer yr ornest ryngwladol.

Llongyfarchwn Geraint ar ei lwyddiant yn cael ei ddewis, a dymunwn yn dda iddo fo a thîm Cymru yn Llyn Brenig y flwyddyn nesaf.



Tîm Pêl-droed Dan 6 Bethesda



Tîm Pêl-droed Dan 6 Bethesda efo’u hyfforddwr, Mr Stephen Jones, yn dilyn buddugoliaethau diweddar yn erbyn Bethel a Bontnewydd. Rhes gefn (o’r chwith): Deio, Eban, Noah; rhes flaen: Llyr, Osian, Ifan, Bobbie, Elgan.

Ysgol Abercaseg

Disgo Gwisg Ffansi

Cafwyd hwyl yn dawnsio yn y disgo cyn cau am ylliau hanner tymor. Roedd pawb yn edrych yn frawychus iawn...ond yn ddigon o sioe!



Llyfrau Newydd

Diolch yn fawr i Gyfeillion yr ysgol am gasglu £800 i brynu llyfrau i’w rhoi ym magiau darllen y plant. Mae holl staff yr ysgol yn gwerthfawrogi eich gwaith caled a bydd pob plentyn yn elwa o’ch rhodd.



Diwrnod Shwmae Su’ mae

Trefnodd Dreigiau Caseg brynhawn o weithgareddau i gyd-fynd â *Diwrnod Shwmae Su’ mae*. Aeth y plant o ddosbarth i ddosbarth i wyllo rhaglenni Cymraeg, defnyddio apiau Cymraeg a dawnsio i gerddoriaeth Cymraeg.

Yn ogystal, aeth rhai o’r Dreigiau i rannu posteri o amgylch siopau Bethesda i hybu dechrau pob sgwrs yn Gymraeg. Gan fod y Dreigiau mor weithgar, maent wedi sicrhau fod yr ysgol wedi derbyn gwobr aur Siarter Iaith am y trydydd tro. Llongyfarchiadau a diolch am eich gwaith.

Trydar

Mae gan yr ysgol gyfrif Trydar newydd. Mae croeso i unrhyw un ein dilyn ar @YsgolAbercaseg1 er mwyn mwynhau gweld lluniau, hanesion a gweithgareddau’r plant.

Gwellhad Buan

Hoffai pawb ddymuno gwellhad buan i Mrs Griffiths ac edrychwn ymlaen i’ch gweld.

Storm Ophelia

Yn dilyn y tywydd garw, bu plant Blwyddyn 2 yn ymchwilio i effaith y storm. Roedd y plant wedi rhyfeddu at y gwres a’r arogl ryfedd oedd fel cysgod dros Fethesda cyn i’r gwyntoedd cryfion gyrraedd.